Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# **Addas at y dyfodol?** Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ddegawd yn ddiweddarach

Mawrth 2026



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru**
X: **@SeneddCydraddoldeb**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# Addas at y dyfodol?
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ddegawd yn ddiweddarach

Mawrth 2026

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru



**Mick Antoniw AS**
Llafur Cymru



**Jane Dodds AS**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Altaf Hussain AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Julie Morgan AS**
Llafur Cymru



**Sioned Williams AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ........ **7**

**Argymhellion a Chasgliadau** ........ **8**

**1. Crynodeb gweithredol** ........ **12**

**2. Cefndir a chyflwyniad** ........ **14**

Cyflwyniad ........ 14

Casglu tystiolaeth ........ 14

Cefndir yr ymchwiliad ........ 15

Beth yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol? ........ 15

**3. Effaith y ddyletswydd** ........ **18**

Effaith gyffredinol ........ 18

Effaith Ryngwladol ........ 21

Asesiadau effaith eraill ........ 22

Gwerth am arian ........ 23

Gwerthusiad gan Lywodraeth Cymru ........ 24

Barn Llywodraeth Cymru ........ 24

Ein barn ni ........ 25

**4. Gweithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy** ........ **28**

Ymwybyddiaeth ar lawr gwlad ........ 28

Barn Llywodraeth Cymru ........ 29

Yr egwyddor datblygu cynaliadwy ........ 30

Pwysigrwydd cymryd rhan ........ 30

Ffocws ar atal ........ 31

Barn Llywodraeth Cymru ........ 33

Canllawiau statudol ... 34
Ein barn ni ... 35
**5. Cyrff cyhoeddus, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r dirwedd bartneriaeth ... 37**
Y cyrff cyhoeddus sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf ... 37
Barn Llywodraeth Cymru ... 38
Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) ... 39
Y dirwedd bartneriaeth ... 39
Barn Llywodraeth Cymru ... 41
Rôl ac aelodaeth BGCau ... 41
Craffu ar BGCau ... 43
Barn Llywodraeth Cymru ... 43
Ein barn ni ... 44
**6. Trefniadau cynllunio, monitro ac adrodd ... 46**
Gofynion cynllunio ac adrodd ... 46
Amserlenni o fewn y Ddeddf ... 47
Barn Llywodraeth Cymru ... 48
Monitro a'r dangosyddion cenedlaethol ... 49
Rôl y Comisiynydd a'r Archwilydd Cyffredinol ... 50
Barn Llywodraeth Cymru ... 51
Ein barn ni ... 51
**7. Pwerau, gorfodi a threfniadau ariannu ... 53**
Y ddadl ynghylch gorfodi ... 53
Pwerau'r Comisiynydd mewn perthynas â gorfodi ... 54
Pwerau adran 20 ... 56

Barn Llywodraeth Cymru ........ 58

Ein barn ni ........ 59

**Atodiad 1 : Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar. ........ 62**

**Atodiad 2 : Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig........ 64**

**Atodiad 3 : Crynodeb o argymhellion a gymeradwywyd gan y Pwyllgor gan yr Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd, ac ymateb Llywodraeth Cymru........ 67**

# Rhagair y Cadeirydd

## Prin iawn yw'r darnau o ddeddfwriaeth y bu disgwyliadau mor eang neu mor ddyheadol yn eu cylch â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Wrth i ail ddegawd y Ddeddf ddechrau, y gwir arswydus yw bod yr heriau yr ydym yn eu hwynebu fel planed yn rhai mwy tyngedfennol nag erioed.

Roedd pasio'r Ddeddf yn foment o arloesi ac uchelgais go iawn i Gymru. Dyma'r ymgais gyntaf o'i bath i roi datblygu cynaliadwy wrth wraidd sut y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cyflawni eu gwaith. Mae ein hymchwiliad wedi canfod bod yr uchelgais hon mor bwysig ag erioed.

Er bod y Ddeddf yn radical ac uchelgeisiol, cydnabyddir yn eang bod y broses o'i rhoi ar waith wedi bod yn rhy araf, gyda chynnydd cymysg yn aml. Yn hanfodol, mae mwy i'w wneud i wella ffyrdd o weithio, yn benodol i ymwreiddio atal a chynnwys mewn arfer prif ffrwd.

Cawsom gyfoeth o dystiolaeth gan randdeiliaid a dinasyddion, gyda dinasyddion yn cymryd rhan mewn rhaglen helaeth o ymgysylltu â'r cyhoedd. Cafodd ein hadroddiad ei gyfoethogi'n fawr gan yr holl sylwadau a safbwyntiau a rannwyd. Rydym yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd ac yn gobeithio y byddwch yn deall y meddylfryd y tu ôl i'n casgliadau a'n hargymhellion. Rydym yn gobeithio y byddant yn cynnig map trywydd i wneud y Ddeddf yn addas i'r dyfodol.

Rydym yn annog y Senedd nesaf a Llywodraeth nesaf Cymru i ymrwymo i adeiladu rhywbeth a fydd yn para, gan ddatblygu'r Ddeddf fel ei bod yn cyrraedd ei llawn botensial.

**Jenny Rathbone AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

# Argymhellion a Chasgliadau

**Argymhelliad 1.** Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gynnal adolygiad cyflym o'r Ddeddf yn gynnar yn nhymor y Senedd nesaf fel y gellir cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ynghylch newidiadau a bod modd eu rhoi ar waith cyn etholiad nesaf y Senedd yn 2030. Dylai'r nod cyffredinol fod yn un o gadarnhau'n bendant y newidiadau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu gwneud ar draws y categorïau canlynol:

- newidiadau deddfwriaethol;
- newidiadau polisi; a
- newidiadau i ganllawiau.

Dylid cyflwyno newidiadau drafft yr adolygiad i'n pwyllgor olynol i'w hystyried o fewn blwyddyn gyntaf y Senedd newydd a dim hwyrach na mis Mehefin 2027, gyda dadl yn y Cyfarfod Llawn i ddilyn yn fuan wedi hynny. ............................... Tudalen 26

**Argymhelliad 2.** Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru ymgymryd ag ymarfer tebyg i'r sgwrs Y Gymru a Garem fel rhan o'r paratoadau ar gyfer Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig 2030. Dylid defnyddio'r ymarfer i roi egwyddorion y Ddeddf ar waith a defnyddio cyfranogi fel arf i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth. Dylai'r ymarfer hwn fod yn uchelgeisiol ei gyrhaeddiad a dylai gyrraedd ein cymunedau ledled y wlad. Dylai'r broses gael ei chwblhau erbyn diwedd 2029 fan bellaf. ........................................ Tudalen 35

**Argymhelliad 3.** Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gymryd camau i wella dealltwriaeth o'r egwyddor atal gan gyrff cyhoeddus, a sut y caiff yr egwyddor honno ei gweithredu, a dylai ailystyried yr ymateb i argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas ag atal. Rydym yn cymeradwyo'r argymhelliad hwnnw a'i alwadau ar Lywodraeth Cymru i weithio i:

- gryfhau'r ddealltwriaeth am lefelau buddsoddi mewn atal a'i effaith;
- adeiladu ar waith i wreiddio atal ym mhroses y gyllideb gan ystyried, er enghraifft, gyfleoedd i ddod â chyllid ynghyd ar draws gwahanol rannau o'r system i gefnogi atal;
- cymell a diogelu gwariant ataliol ar lefel leol; a

- dysgu oddi wrth eraill y tu hwnt i Gymru, er enghraifft, gan ystyried gwaith y mae CIPFA yn ei wneud ar ddeall gwariant ataliol. .... Tudalen 36

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth bresennol Cymru nodi amserlen a chwmpas manwl y gwaith y mae wedi ei gychwyn i adolygu strwythurau a'r aliniad rhwng partneriaethau presennol a'u swyddogaethau. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru gynnal adolygiad cynhwysfawr a sicrhau bod y broses:

- yn cael ei rhoi ar waith yn gyflym, gan adeiladu ar y dystiolaeth helaeth sydd eisoes yn bodoli sy'n cefnogi'r achos dros newid;
- yn cynnal ffocws clir ar symleiddio, cydgrynhoi a chydlyniant, gan sicrhau nad yw'r rhain yn cael eu tanseilio gan fuddiannau breintiedig na blaenoriaethau eraill;
- yn cael ei chynnal mewn modd amserol a'i chwblhau o fewn blwyddyn gyntaf tymor nesaf y Senedd (felly dim hwyrach na mis Mehefin 2027). ........................................................................................................................................ Tudalen 45

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell y dylai'r Grŵp Cynnydd Cryfhau BGCau ystyried opsiynau ar gyfer cryfhau craffu ar waith BGCau ochr yn ochr â chamau i wella tryloywder a pha mor agored yw cyfarfodydd BGCau, gan gynnwys sut y maen nhw'n cynnwys cyfranogwyr eraill megis Cynghorau Tref a Chymuned, y trydydd sector a sefydliadau llawr gwlad. Nid yw'r argymhelliad hwn yn gofyn am newidiadau deddfwriaethol a dylid ei gwblhau o fewn blwyddyn gyntaf y Senedd newydd a heb fod yn hwyrach na Mehefin 2027. ..........................................................Tudalen 45

**Argymhelliad 6.** Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gynnal ymarfer trawslywodraethol i nodi pa ofynion cynllunio ac adrodd ar draws gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth a fyddai'n elwa ar gysoni er mwyn:

- Lleihau dyblygu a beichiau gweinyddol;
- Ei gwneud yn haws olrhain canlyniadau a monitro cynnydd;
- Osgoi anghydnawsedd diangen neu wrthdaro digroeso â chylchoedd etholiadol, er enghraifft.

Dylai'r canlyniadau ddarparu sail i Lywodraeth Cymru gyflwyno Bil cul i roi pwerau dros dro neu benodol i Weinidogion ddiwygio terfynau amser statudol ar draws set ddiffiniedig o Ddeddfau gan ddefnyddio is-ddeddfwriaeth. Dylai'r ymarfer trawslywodraethol gael ei gwblhau o fewn blwyddyn gyntaf y Senedd newydd a

heb fod yn hwyrach na Mehefin 2027, gyda deddfwriaeth yn cael ei gweithredu cyn etholiad nesaf y Senedd yn 2030. ........ Tudalen 52

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth nesaf Cymru gryfhau mesurau atebolrwydd yn y Ddeddf ac ystyried ei diwygio fel y gall y Comisiynydd gychwyn heriau cyfreithiol os bernir bod penderfyniad corff cyhoeddus yn groes i egwyddorion a nodau'r Ddeddf. ........ Tudalen 60

**Argymhelliad 8.** Yn y tymor byr, rhaid i Lywodraeth bresennol Cymru ddod o hyd i ateb i'r mater cyfrifyddu sy'n atal y Comisiynydd rhag cario cronfeydd wrth gefn drosodd er mwyn ariannu adolygiadau a20. Yn y tymor hwy, dylai Llywodraeth nesaf Cymru ystyried diwygio'r Ddeddf i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am benodi ac ariannu'r Comisiynydd yn uniongyrchol i'r Senedd. O ystyried yr amserlen ar gyfer penodi Comisiynydd nesaf Cenedlaethau'r Dyfodol ac i alluogi'r trefniadau hyn i fod yn berthnasol i ddeiliad y swydd, dylid gosod nod o gwblhau'r newidiadau statudol angenrheidiol erbyn diwedd 2028/dechrau 2029. ........ Tudalen 61

**Casgliad 1.** Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ymgysylltu'n weithredol â chanfyddiadau'r ddau adroddiad statudol gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym yn cymeradwyo'n ffurfiol holl argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol yn Dim Amser i'w Golli ac argymhellion 1, 2, 44, 45, a 47 y Comisiynydd. Cyhoeddir y rhain ochr yn ochr â chrynodeb o ymateb Llywodraeth Cymru ac maent ar gael yn yr Atodiad. ........ Tudalen 26

**Casgliad 2.** Rydym yn cytuno bod angen adolygu'r canllawiau ac y dylai hyn ystyried canfyddiadau'r ymchwiliad hwn ac ymchwiliadau eraill ........ Tudalen 36

**Casgliad 3.** Mae'n rhwystredig nodi bod y darlun wedi aros yr un fath i raddau helaeth ers adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar rwystrau i weithredu yn 2021. Bryd hynny, roeddent yn galw am eglurder ar y rhyngweithio rhwng gwahanol strwythurau partneriaeth ac am symleiddio a chydgrynhoi'r rhain i leihau ailadrodd a dyblygu. ........ Tudalen 44

**Casgliad 4.** Ni fyddai galluogi BGCau i gyflogi staff o reidrwydd yn gwella eu heffeithiolrwydd. Byddai symud i'r cyfeiriad hwnnw'n tanseilio'r ddadl dros symleiddio a chydgrynhoi strwythurau. Mae lle i BGCau wneud gwell defnydd o bwerau presennol i gronni staff, adnoddau a chyllideb a chredwn y dylid archwilio'r rhain yn y lle cyntaf ........ Tudalen 45

**Casgliad 5.** Fodd bynnag, rydym yn cytuno â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol nad nawr yw'r amser i adolygu'r dangosyddion cenedlaethol ac y byddai'n annoeth gwneud hynny ar sail dreigl. ........ Tudalen 52

**Casgliad 6.** Nodwn sylwadau Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch ehangu a symleiddio dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Ddeddf i edrych yn ehangach ar sut y mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu'r Ddeddf. Rydym yn cefnogi'r safbwynt hwn ac yn gobeithio y gellir bwrw ymlaen ag ef fel rhan o unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth yn y dyfodol. ........ Tudalen 52

**Casgliad 7.** Mae'n annerbyniol bod gallu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gynnal adolygiadau a20 yn cael ei beryglu gan faterion technegol sy'n ymwneud â sut y mae swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei hariannu. Mae'n hanfodol bod y rhain yn cael sylw fel bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn gallu gweithredu'n annibynnol a heb y perygl o ymyrraeth gan lywodraeth y dydd. Mae angen datrys y mater o ariannu adolygiadau a20 ar unwaith. Rydym yn disgwyl ymateb gan yr Ysgrifennydd Cabinet ar y mater hwn cyn diddymu'r Senedd ym mis Ebrill 2026. ........ Tudalen 61

# 1. Crynodeb gweithredol

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 oedd y ddeddfwriaeth gyntaf o'i bath yn unrhyw le yn y byd. Nododd Cymru dengmlwyddiant y Ddeddf yn derbyn Cydsyniad Brenhinol yn 2025.

**1.** Mae ein gwaith yn adeiladu ar adroddiadau blaenorol: mae llawer o themâu'r adroddiadau hyn yn berthnasol o hyd, yn enwedig ym meysydd atal a chraffu ôl-ddeddfwriaethol. Mae barn Llywodraeth Cymru am werthuso yn parhau i fod yn aneglur, ac rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i ymrwymo i gynnal adolygiad cyflym yn gynnar yn y senedd nesaf.

**2.** Ceir cytundeb cyffredinol bod y Ddeddf yn radical ac yn uchelgeisiol ond bod y broses o'i chyflwyno wedi arwain at ganlyniadau cymysg.

**3.** Roedd cytundeb ar y cyfan bod y Comisiynydd yn cynrychioli gwerth da am arian. Fodd bynnag, mae hi wedi bod yn anodd asesu ystyriaethau gwerth am arian yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth.

**4.** Mae ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Ddeddf yn isel, ac mae angen gwneud llawer mwy i sicrhau bod dinasyddion yn cael eu cynnwys yn briodol wrth lunio penderfyniadau.

**5.** Mae angen i gyrff cyhoeddus roi blaenoriaeth i waith atal, a dyna lle mae angen gwneud gwelliannau sylweddol. I'r perwyl hwn, rydym yn cymeradwyo argymhelliad adroddiad statudol 2025 yr Archwilydd Cyffredinol ac yn gofyn i Lywodraeth Cymru ailedrych ar ei hymateb a'r rhesymau dros wrthod yr argymhelliad.[1]

**6.** Yn unol â chanfyddiadau adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn 2021, mae tirwedd bartneriaeth gymhleth yn parhau i fod yn rhwystr posibl i lwyddiant. Rydym yn nodi'n glir bod angen rhoi pwyslais ar symleiddio a chydgrynhoi'r strwythurau hyn ar frys.

[1] Roedd yr argymhelliad yn gofyn i Lywodraeth Cymru edrych ar ffyrdd eraill, cyflenwol, o annog buddsoddiad mewn atal gan gynnwys drwy wella dealltwriaeth o egwyddorion ataliol, ymgorffori atal mewn prosesau cyllidebol ac edrych y tu hwnt i Gymru ar enghreifftiau eraill o arfer da. Mae'r argymhelliad llawn ar gael yn **Atodiad 3**.

**7.** Mae cwestiynau'n cael eu gofyn am rôl, dyletswyddau ac effeithiolrwydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Nid yw effaith y Byrddau hyn yn amlwg bob tro ac roedd sectorau eraill wedi gofyn am fwy o gyfranogiad a thryloywder ynghylch eu gwaith.

**8.** Mae gofynion cynllunio ac adrodd yn cael eu bodloni'n ddigonol. Fodd bynnag, mae amserlenni rhai o'r prosesau hyn yn anghyson, a mynegwyd pryderon ynghylch effaith diwygio'r Senedd.

**9.** Roedd un o'r trafodaethau mwyaf bywiog yn ymwneud â'r berthynas rhwng gorfodi ac annog. Cyfeiriodd yr amheuwyr at "ddiffyg dannedd" y Ddeddf gan nodi y gallai danseilio ymddiriedaeth y cyhoedd. Yn ystod ein gwaith ymgysylltu â dinasyddion, roedd yr ymdeimlad o rwystredigaeth ynglŷn â methiant y Ddeddf i gyflwyno newid gwirioneddol o ran eu profiadau bywyd yn tynnu sylw at y risg hon. Nid yn unig y mae angen i'r Ddeddf ddechrau cyflawni, ond mae angen cryfhau mecanweithiau atebolrwydd i alluogi hyn.

**10.** Yn olaf, mae adolygiadau Adran 20 wedi bod yn ffordd effeithiol i'r Comisiynydd ddwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif ond maent yn cael eu tanseilio gan drefniadau ariannu swydd y Comisiynydd. Rydym yn argymell bod angen edrych ar drefniadau eraill megis bod y Senedd yn penodi ac yn ariannu'r Comisiynydd yn uniongyrchol.

# 2. Cefndir a chyflwyniad

Mae gwneud deddfau i Gymru a dwyn y Llywodraeth i gyfrif yn ddwy o swyddogaethau craidd y Senedd. Fodd bynnag, mae swyddogaeth ôl-ddeddfu'r Senedd mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi bod yn gyfyngedig hyd yn hyn. Ein nod ni oedd cyfrannu at y ddadl mewn ffyrdd sy'n ategu gwaith pobl eraill.

## Cyflwyniad

**11.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau ymchwiliad craffu ôl-ddeddfwriaethol y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. Cytunodd y Pwyllgor ar gylch gorchwyl a oedd yn cynnwys ystyried y canlynol:

- i ba raddau mae'r Ddeddf yn cyflawni ei hamcanion;
- pa gamau gweithredu sydd eu hangen o bosibl i wella'r broses o gyflwyno'r Ddeddf neu ei heffeithiolrwydd;
- effeithiolrwydd darpariaethau allweddol megis gofynion adrodd, canllawiau a gorfodi; ac
- a yw'r Ddeddf yn cynnig gwerth am arian.

**12.** Mae'r cylch gorchwyl llawn ar gael ar-lein.

## Casglu tystiolaeth

**13.** Casglwyd llawer iawn o dystiolaeth gennym rhwng mis Mai a mis Rhagfyr 2025. Roedd hyn yn cynnwys tystiolaeth ysgrifenedig a llafar gan randdeiliaid yn bennaf, yn ogystal â rhaglen helaeth o ymgysylltu uniongyrchol â dinasyddion. Mae manylion llawn y dystiolaeth, gan gynnwys dolenni i drawsgrifiadau a chyflwyniadau, i'w gweld yn yr atodiadau.

**14.** Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb sydd wedi cyfrannu at ein gwaith. Yn benodol, diolchwn i'r plant a'r bobl ifanc a fu'n cymryd rhan yn ein grwpiau ffocws

am gynrychioli safbwyntiau a rhwystredigaethau cenedlaethau'r dyfodol mewn ffordd llawn brwdfrydedd ac aeddfedrwydd. Ni fyddai'r adroddiad hwn wedi bod yn bosibl heboch chi.

## Cefndir yr ymchwiliad

**15.** Yn 2021 cyhoeddodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PAC) y Senedd flaenorol adroddiad ar rwystrau i weithredu Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn llwyddiannus.[2] Roedd yr adroddiad yn cynnwys amrywiaeth o ganfyddiadau ac argymhellion yn canolbwyntio'n bennaf ar weithredu, ac roedd yn cydnabod yr angen i ystyried craffu ar ôl deddfu ar y Ddeddf yn ystod y Chweched Senedd.

## Beth yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?

**16.** Mae Ffigurau 1 a 2 yn amlinellu'r prif agweddau ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (y Ddeddf). Yn ei hanfod, roedd y Ddeddf wedi creu dyletswyddau cyfreithiol newydd ar gyrff cyhoeddus, wedi sefydlu saith nod llesiant, a phum ffordd o weithio; wedi sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a swydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol; ac wedi creu nifer o ddyletswyddau adrodd i fesur perfformiad.

[2] Pumed Senedd, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: Y stori hyd yma, Mawrth 2021


***Ffigur 1: Dyletswyddau a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol***

## DYLETSWYDDAU CYFREITHIOL

**EGWYDDOR DATBLYGU CYNALIADWY:** Rhaid i gyrff cyhoeddus ddiwallu anghenion y presennol heb danseilio cenedlaethau'r dyfodol o ran eu hanghenion nhw.

**Y DDYLETSWYDD LLESIANT:** Rhaid i gyrff cyhoeddus wneud y cyfraniad mwyaf posibl tuag at gyrraedd y nodau llesiant.

## SAITH NOD LLESIANT CYSYLLTIEDIG



***Ffigur 2: Y pum ffordd o weithio, y Comisiynydd, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r dangosyddion cenedlaethol***

## Y PUM FFORDD O WEITHIO

**CYDWEITHIO:** Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.

**INTEGREIDDIO:** Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

**CYNNWYS:** Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

**HIRDYMOR:** Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.

**ATAL:** Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

## COMISIYNYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL

Fe grëwyd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i roi cyngor, hyrwyddo ymwybyddiaeth, cynnal ymchwil ac adolygu'r camau sy'n cael eu cymryd gan gyrff cyhoeddus.

## BYRDDAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn dwyn ynghyd gynrychiolwyr ym mhob ardal cyngor lleol.

- **CYNGHORAU LLEOL**
- **BYRDDAU IECHYD**
- **GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB**
- **CYFOETH NATURIOL CYMRU**

**DANGOSYDDION CENEDLAETHOL**
Rhestr o ddangosyddion sy'n gorfod cael ei defnyddio at ddiben mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant.

# 3. Effaith y ddyletswydd

Mae'r weledigaeth a'r dyheadau radical sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf wedi bod yn gryfder allweddol ac yn rhwystr posibl i'w chyflwyno. Mae'r darlun yn gymysg: ceir enghreifftiau o ymarfer da ond mae cynnydd yn cymryd mwy o amser nag y byddai rhai wedi'i obeithio.

## Effaith gyffredinol

**17.** Ar y cyfan, roedd gan gyfranwyr at ein hymchwiliad agwedd gadarnhaol at effaith y Ddeddf, er bod llawer yn cydnabod bod natur y ddeddfwriaeth yn golygu y bydd angen mwy o amser i wneud cynnydd sylweddol a pharhaol. Pwysleisiodd Trafnidiaeth Cymru, Chwaraeon Cymru a Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru eu bod nhw a sefydliadau eraill yn gweithredu ysbryd cyffredinol y Ddeddf.[3]

**18.** Dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Derek Walker:

> *"Er bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth yn tyfu, nid ydym eto ar y trywydd iawn i gyrraedd y nodau llesiant …Fodd bynnag…mae mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf, ac wrth i amser fynd yn ei flaen, mae cyrff cyhoeddus yn well am ei gweithredu. Serch hynny, mae angen mwy o weithredu."*[4]

**19.** Dywedodd y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol fod y Ddeddf yn parhau i ennyn cefnogaeth wleidyddol a sefydliadol gadarn a'i bod wedi cyfrannu at newid diwylliant oddi mewn i Lywodraeth Cymru ac ar draws gwasanaethau cyhoeddus, gan greu timau newydd, strwythurau atebolrwydd, a phrosesau gwneud penderfyniadau sy'n rhoi mwy o bwyslais ar feddwl yn yr hirdymor a chanlyniadau cymunedol.[5]

---

[3] SWFGA 15 Iechyd Cyhoeddus Cymru; SWFGA 23 Trafnidiaeth Cymru; SWFGA 50 Chwaraeon Cymru; SWFGA 16 Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru
[4] SWFGA 10 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
[5] SWFGA 55 Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

**20.** Dadl sawl sefydliad, yw bod bwlch rhwng dyheadau'r Ddeddf a'r effaith wirioneddol y mae wedi'i chael ar feysydd polisi penodol.[6]

**21.** Yn ôl Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, er y gall 10 mlynedd ymddangos yn amser hir mewn rhai meysydd, mae'n ddyddiau cynnar o safbwynt cyflwyniad y ddeddf.[7] Pwysleisiodd Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru (RCGP Cymru) mai megis dechrau yn y swydd y mae'r ail Gomisiynydd, a bod angen dadansoddi llwyddiant y ddeddfwriaeth yn y cyd-destun hwn.[8]

**22.** Roedd Climate Cymru yn fwy beirniadol, gan nodi bod cyflwyno'r Ddeddf yn arwain yn aml at ymarferion ticio blychau neu wyrddgalchu, a bod nodau llesiant yn cael eu trin ar wahân yn hytrach nag fel elfennau cydgysylltiedig sy'n hanfodol i sicrhau Cymru lewyrchus, gyfartal ac iach. O ganlyniad, mae sefydliadau yn canolbwyntio ar brosiectau yn hytrach na newid systemig"[9].

**23.** Cyfeiriodd y Sefydliad Materion Cymreig at y perygl o "wyngalchu cenedlaethau'r dyfodol", hynny yw, h.y. defnyddio geiriau'r Ddeddf ond parhau i weithredu mewn modd sy'n ei thanseilio.[10]

**24.** Roedd ein rhaglen ymgysylltu â dinasyddion yn cynnwys bron i 350 o bobl ac yn ei hadroddiad nodwyd bod ymwybyddiaeth o'r Ddeddf ymhlith cyfranogwyr yn isel ar y cyfan; unwaith y byddent wedi dysgu am y Ddeddf, eu bod yn croesawu ei dyheadau. Dywedodd y cyfranogwyr wrthym mai'r mesur pwysicaf ar gyfer pwyso a mesur effaith y Ddeddf yw a ydynt yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt, ac a ydynt yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau. Cyfeiriodd y dinasyddion hyn at waith gan Gyngor Abertawe a rhwydwaith cyd-gynhyrchu dan arweiniad gwirfoddolwyr yn Nhorfaen fel enghreifftiau o sut y gall cydweithio feithrin ymddiriedaeth a grymuso.[11] Fodd bynnag:

> *"disgrifiwyd y llwyddiannau hyn fel eithriadau. Yn amlach, roedd cyfranogwyr yn teimlo bod eu barn yn cael i hanwybyddu, gydag ymgynghoriadau yn cael eu gweld fel pethau symbolaidd, a*

[6] Tystiolaeth ysgrifenedig gan: SWFGA 25 Tai Pawb; SWFGA 26 Race Equality First; SWFGA 32 Crisis UK; SWFGA 02 Asthma & Lung UK; SWFGA 41 Climate Cymru; SWFGA 42 OXFAM Cymru; SWFGA 19 School of International Futures, Bwrdd Parc Llesiant Bronllys, Asthma + Lung UK Cymru, a Climate Cymru, SWFGA 40 Comisiynydd y Gymraeg
[7] SWFGA 16 Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru
[8] SWFGA 09 Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru (RCGP Cymru)
[9] SWFGA 41 Climate Cymru
[10] SWFGA 11 Y Sefydliad Materion Cymreig
[11] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Crynodeb o'r Gwaith Ymgysylltu, Tachwedd 2025

> *phenderfyniadau ar dai, yr amgylchedd, neu wasanaethau lleol yn cael eu gwneud heb gyfranogiad o ddifri."*[12]

**25.** Dywedodd y cyn-Gomisiynydd Datblygu Cynaliadwy Peter Davies fod y Ddeddf yn darparu fframwaith cyffredin, ond nododd y canlynol:

> *"the degree to which that framework has been effectively implemented has been dependent on the leadership required to embed within the culture of public bodies, as opposed to it being merely a compliance exercise. There are still cases where the requirements of the Act are complied with through a separate process, as opposed to being the basis of operational planning and reporting."*[13]

**26.** Pwysleisiodd sawl cyfrannwr bwysigrwydd cydnabod effaith digwyddiadau allanol a thueddiadau cymdeithasol ers cyflwyno'r Ddeddf. Nodwyd bod y pandemig Covid-19, Brexit a'r argyfwng costau byw wedi creu heriau cymhleth i gyrff cyhoeddus, gan dynnu sylw oddi wrth nodau hirdymor yn aml.[14]

**27.** Nododd y Sefydliad Materion Cymreig, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Comisiynydd y Gymraeg, cyn-Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Sophie Howe ac eraill ei bod yn anodd sefydlu cysylltiad achosol uniongyrchol sy'n dangos yn bendant bod polisïau neu benderfyniadau wedi cael eu gwneud oherwydd y Ddeddf neu oherwydd ffactorau eraill.[15]

**28.** Yn ei adroddiad statudol yn 2025, dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru fod y Ddeddf yn "newid sgyrsiau, yn dylanwadu ar gynllunio tymor hwy, ac yn effeithio ar brosesau penderfynu ac arferion gweithio o ddydd i ddydd ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru". Serch hynny, nododd enghreifftiau hefyd lle "nad yw cyrff cyhoeddus wedi rhoi rhyw lawer o ystyriaeth benodol os o gwbl i'r Ddeddf [...] ac [...] nad yw'r Ddeddf yn llywio'r newid system gyfan a fwriadwyd".[16]

---

[12] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Crynodeb o'r Gwaith Ymgysylltu, Tachwedd 2025
[13] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Crynodeb o'r Gwaith Ymgysylltu, Tachwedd 2025
[14] SWFGA 15 Iechyd Cyhoeddus Cymru; SWFGA 18 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC); SWFGA 36 Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
[15] SWFGA 11 Y Sefydliad Materion Cymreig; SWFGA 21 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro; Cofnod y Trafodion paragraff 18, 30 Mehefin 2025, SWFGA 40 Comisiynydd y Gymraeg
[16] Archwilio Cymru, Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, 29 Ebrill 2025

**29.** Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod arferion yn amrywio o fewn sefydliadau, ac o fewn a rhwng sectorau, gan nodi bod gan y system iechyd "rywfaint o ffordd i fynd o ran cymhwyso ffordd o feddwl sy'n rhoi sylw i genedlaethau'r dyfodol ar draws ei weithgarwch cynllunio a chyflawni".[17]

**30.** Cyfeiriodd sawl cyfrannwr at gyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru ar fod yn 'Genedl Marmot'. Dywedodd y cyn-Gomisiynydd, Sophie Howe, fod yr egwyddorion yn gwbl ganolog i Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Dywedodd fod angen bwrw ymlaen â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn creu cenedl Marmot.

## Effaith Ryngwladol

**31.** Cyfeiriodd sawl ymatebydd at effaith ryngwladol y ddeddfwriaeth, gan gynnwys y Sefydliad Materion Cymreig; yr Athro Luci Attala, Prifysgol Abertawe; y Gwasanaeth Natur; a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.[18]

**32.** Awgrymodd Foundations for Tomorrow - sefydliad nid-er-elw dan arweiniad pobl ifanc yn Awstralia - fod y model Cymreig wedi sbarduno momentwm sylweddol yn fyd-eang.[19]

**33.** Dywedodd Jane Davidson, cyn-Weinidog a chyn-Aelod Cynulliad, ac un o gefnogwyr gwreiddiol y Ddeddf, fod Swyddfa Dramor y DU wedi'i disgrifio fel deddf sy'n rhoi'r pŵer meddal mwyaf erioed i Gymru.[20]

**34.** Cyfeiriodd y Sefydliad Materion Cymreig, Oxfam Cymru, Prifysgol Wrecsam, a'n panel o academyddion at effaith y Ddeddf ar gyrff nad ydynt wedi'u rhwymo'n gyfreithiol gan ei dyletswyddau, er enghraifft: prifysgolion, Cymdeithas Bêl-droed Cymru; Bluestone a Chymdeithas Adeiladu'r Principality. Dywedodd y Sefydliad Materion Cymreig fod hyn yn dangos yr effaith ehangach y mae'r ddeddf wedi'i chael ar newid y sgwrs yng Nghymru.[21]

**35.** Dywedodd Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant, Cyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip ("yr Ysgrifennydd Cabinet"):

---

[17] Archwilio Cymru, Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, 29 Ebrill 2025
[18] SWFGA 11 Y Sefydliad Materion Cymreig; SWFGA 05 Yr Athro Luci Attala, Prifysgol Cymru Abertawe; SWFGA 12 Y Gwasanaeth Natur; SWFGA 10 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
[19] SWFGA 03 Foundations for Tomorrow
[20] Cofnod y Trafodion para. 36, 30 Mehefin 2025;
[21] Cofnod y Trafodion, 23 Mehefin 2025; SWFGA 11 Y Sefydliad Materion Cymreig; SWFGA 08 Prifysgol Wrecsam

> *"Adeg sefydlu'r Ddeddf, cydnabuwyd y byddai'n cymryd amser i gyflawni ei chanlyniadau a'i nodau arfaethedig. Dyna pam y sefydlwyd rhaglen waith 20 mlynedd i gefnogi'r newidiadau ymddygiad a diwylliant y byddai eu hangen a pham y sefydlwyd Gwasanaeth Newid Diwylliant Llywodraeth Cymru ym mis Mai 2012."*

**36.** Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad oes unrhyw lywodraeth wedi llwyddo eto i ymwreiddio datblygu cynaliadwy ym mhob maes polisi, a bod y ffaith hon wedi'i chydnabod o'r dechrau'n deg. Er bod Llywodraeth Cymru yn falch iawn o'r Ddeddf, dywedodd nad yw'n fodlon â'r canlyniadau na'r sefyllfa o ran dangosyddion cenedlaethol.[22]

## Asesiadau effaith eraill

**37.** Yn 2021, edrychodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y pryd ar rwystrau i weithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus.[23] Cyfeiriodd adroddiad y Pwyllgor at ganfyddiadau'r gyfres gyntaf o adroddiadau statudol gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r Archwilydd Cyffredinol a gyhoeddwyd yn 2020.[24]

**38.** Awgrymodd adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus fod angen gwneud gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol yn gynnar yn y chweched Senedd.

**39.** Ym mis Ebrill 2025, cyhoeddwyd dau adroddiad statudol arall gan y Comisiynydd, Derek Walker, ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Adrian Crompton.[25] Roedd Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 wedi gwneud 50 o argymhellion gan gynnwys y dylai Llywodraeth Cymru "gychwyn adolygiad ôl-ddeddfwriaethol" o'r Ddeddf.[26] Ymddangosodd argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru nodi "cwmpas ac amserlen ar gyfer ei gwerthusiad ôl-ddeddfwriaethol ei hun ac unrhyw newidiadau i'r Ddeddf" ochr yn ochr â thri argymhelliad arall yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

[22] Cofnod y Trafodion para. 3, 93, 127 01 Rhagfyr 2025
[23] Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Pumed Senedd, Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: Y stori hyd yma, Mawrth 2021
[24] Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020; Archwilydd Cyffredinol Cymru, Felly, beth sy'n wahanol? Mai 2020
[25] Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol; Archwilydd Cyffredinol Cymru, Dim amser i'w golli, 29 Ebrill 2025
[26] Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol; Archwilydd Cyffredinol Cymru, Dim amser i'w golli, 29 Ebrill 2025

## Gwerth am arian

**40.** Roedd cytundeb cyffredinol ei bod yn anodd asesu a yw'r Ddeddf yn cynnig gwerth am arian o ystyried natur y ddeddfwriaeth.

**41.** Awgrymodd Cyngor Llywodraeth Leol Cymru:

> *"There are two broad considerations around whether the Act represents value for money. Firstly, whether implementation costs are worthwhile compared to not having the Act. And secondly whether activity pursued as a result of the Act delivers financial savings, service improvements or social-economic and environmental value."*

**42.** Awgrymodd BCT fod ceisio mesur y Ddeddf o ran gwerth am arian yn colli pwynt y ddeddfwriaeth ac nad yw'n hawdd cipio manteision y Ddeddf drwy fertigau ariannol tymor byr.[27]

**43.** Awgrymodd y Sefydliad Materion Cymreig fod hwn yn faes y mae angen mwy o graffu arno. Dywedodd fod angen craffu ar ble mae adnoddau o fewn swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael eu gwario a sut y mae hyn yn arwain at allbynnau. Awgrymodd y gallai Archwilio Cymru neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd gyflawni'r gwaith hwn.

**44.** Fodd bynnag, roedd consensws eang bod cymorth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn werthfawr, gyda Foundations for Tomorrow yn dweud ei fod wedi cael effaith fyd-eang anhygoel heb lawer o adnoddau.

**45.** Mae aelodau WEL o'r farn bod swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu gwerth am arian ac y dylid cefnogi a chryfhau ei rôl.

**46.** O ran darparu adnoddau i swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, dywedodd yr Athro Calvin Jones:

> *"Let's remember we are trying to guide an almost £30 billion public sector with a body that is funded to the tune of £1.6 million per annum…I'd be delighted if this committee was to recommend that the Government ensure that there was a statutory mechanism of funding for the Future Generations Commissioner's office."*[28]

[27] SWFGA 56 Yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau
[28] Cofnod y Trafodion, para. 132, 23 Mehefin 2025

**47.** Dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru wrthym nad oedd wedi asesu'r ddeddfwriaeth o safbwynt gwerth am arian, gan esbonio y byddai gwneud hynny yn anodd, os nad yn amhosibl o ystyried natur y ddeddfwriaeth. Pwysleisiodd Archwilydd Cyffredinol Cymru, fodd bynnag, fod data da, eglurder ar yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni gwahanol uchelgeisiau a'r mesurau perfformiad cywir yn hanfodol i wella effeithiolrwydd y gwaith o roi'r ddeddfwriaeth ar waith.

## Gwerthusiad gan Lywodraeth Cymru

**48.** Ym mis Mai 2025, croesawodd yr Ysgrifennydd Cabinet ein hymchwiliad, gan ddweud:

> *"Fel rhan o'r paratoadau ar gyfer gwerthuso'r Ddeddf yn y dyfodol, ymunodd cymrawd polisi o'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol â'r Is-adran Dyfodol Cynaliadwy yn Llywodraeth Cymru er mwyn dylunio gwerthusiad o'r Ddeddf a chyflwyno cam cyntaf yr hyn sy'n debygol o fod yn werthusiad aml-flwyddyn."*[29]

**49.** Er bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith cwmpasu, nododd na allai ragdybio y byddai Gweinidog newydd o fewn Llywodraeth Cymru yn y dyfodol o blaid cwblhau'r gwerthusiad hwn.[30]

**50.** Wrth gyfeirio at y gwaith hwn, dywedodd y Comisiynydd ei fod yn deall bod y gwaith cwmpasu cychwynnol wedi'i gwblhau, ond ei fod wedi disgwyl gwneud cyfraniad llawer mwy at y gwaith.[31]

## Barn Llywodraeth Cymru

**51.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod Dr. Adrian Kay wedi cwmpasu dull posibl o werthuso'r Ddeddf. Dywedodd fod gwasanaeth gwybodaeth a dadansoddi Llywodraeth Cymru yn edrych ar opsiynau a chostau ar gyfer gwerthusiad llawn, gan ystyried canfyddiadau'r ymchwiliad hwn.

**52.** Wrth ymgysylltu â'r Comisiynydd, dywedodd ei bod yn disgwyl y bydd angen i unrhyw werthusiad o'r cylch gorchwyl a'r gwaith cwmpasu yn y dyfodol ymgysylltu'n ystyrlon â'r [Comisiynydd] a'i swyddfa.

---

[29] Papur i'w nodi 2.4, cyfarfod y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 9 Mehefin 2025
[30] Ymateb Llywodraeth Cymru i Dim Amser i'w Golli
[31] Cofnod y Trafodion, para. 132, 10 Tachwedd 2025

**53.** Cyflwynodd swyddog o Lywodraeth Cymru drosolwg o dri map sy'n dangos sut y mae'r Ddeddf yn rhyngweithio â deddfwriaeth arall, y dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus, a phwerau Gweinidogion Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Comisiynydd.[32]

## Ein barn ni

### Ar y Ddeddf

**54.** Mae syniad syml ond radical wrth wraidd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: sef ein bod yn ystyried anghenion yfory wrth wneud penderfyniadau heddiw. Mae'r Ddeddf yn cynrychioli'r ymgais gyntaf o'i bath i wneud datblygu cynaliadwy yn egwyddor drefniadol ganolog i'r wladwriaeth. Mae'n ddarn o ddeddfwriaeth arloesol sydd wedi denu sylw eang.

**55.** Cawsom ein cymell yn bennaf i gynnal yr ymchwiliad craffu ôl-ddeddfwriaethol hwn oherwydd mae'n hanfodol bod y Ddeddf hon yn cyflawni ei huchelgeisiau. Lle y bo modd, rydym wedi ceisio adeiladu ar waith eraill yn y maes hwn, ac ychwanegu gwerth ato, ac wedi ystyried eu canfyddiadau wrth lywio ein dull a'n casgliadau.

**56.** Mae'r cynnydd cyffredinol yn gymysg. Mae arferion da mewn rhai meysydd, ond mae'n anodd cyflawni newid system gyfan. Wrth asesu ei heffaith, mae'n bwysig bod yn realistig ynglŷn â'r hyn y gallai un Ddeddf ei gyflawni ar ôl cwta 10 mlynedd. Serch hynny, yn rhy aml mae'n amlwg nad yw rhethreg ynghylch y Ddeddf wedi cyd-fynd â'r newid y mae dinasyddion yn ei weld yn eu cymunedau lleol ac yn eu bywydau beunyddiol.

### Ar asesiadau eraill o weithredu'r Ddeddf

**57.** Mae Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 y Comisiynydd ac adroddiad Dim Amser i'w Golli yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi argymhellion ymarferol ac yn cynnig mewnwelediadau gwerthfawr sy'n helpu i strwythuro'r ddadl ynghylch gweithredu'r Ddeddf. Mae'r ddau adroddiad wedi dylanwadu ar ein meddylfryd, ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ymgysylltu'n weithredol â'u canfyddiadau. Credwn fod pob un o bedwar argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol a nifer o argymhellion y Comisiynydd yn y maes hwn yn arbennig o

[32] Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwiliad craffu ôl-ddeddfwriaethol y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

bwysig, yn ymwneud ag atal, gwerthusiad ôl-ddeddfwriaethol a phartneriaethau gwasanaethau cyhoeddus.

**Casgliad 1.** Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ymgysylltu'n weithredol â chanfyddiadau'r ddau adroddiad statudol gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym yn cymeradwyo'n ffurfiol holl argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol yn Dim Amser i'w Golli ac argymhellion 1, 2, 44, 45, a 47 y Comisiynydd. Cyhoeddir y rhain ochr yn ochr â chrynodeb o ymateb Llywodraeth Cymru ac maent ar gael yn yr Atodiad.

**Ar yr angen am waith craffu ôl-ddeddfwriaethol**

**58.** Mae ein gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol wedi atgyfnerthu dwy brif neges. Y neges gyntaf yw bod y ddeddfwriaeth hon yn sylfaenol bwysig a bod ei hangen, ac y bydd angen ei chryfhau os ydym am sicrhau ei bod yn gwireddu ei photensial ac yn ymateb i heriau'r degawdau i ddod. Yn ail, mae achos cryf dros ddadlau y dylai Llywodraeth nesaf Cymru gynnal ei hadolygiad â ffocws ei hun, a fyddai yn y pen draw yn llywio safbwynt cynhwysfawr ar sut i adnewyddu'r ddeddfwriaeth gan sicrhau ei bod yn addas i'r diben ac i'r dyfodol.

**Argymhelliad 1.** Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gynnal adolygiad cyflym o'r Ddeddf yn gynnar yn nhymor y Senedd nesaf fel y gellir cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ynghylch newidiadau a bod modd eu rhoi ar waith cyn etholiad nesaf y Senedd yn 2030. Dylai'r nod cyffredinol fod yn un o gadarnhau'n bendant y newidiadau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu gwneud ar draws y categorïau canlynol:

- newidiadau deddfwriaethol;
- newidiadau polisi; a
- newidiadau i ganllawiau.

Dylid cyflwyno newidiadau drafft yr adolygiad i'n pwyllgor olynol i'w hystyried o fewn blwyddyn gyntaf y Senedd newydd a dim hwyrach na mis Mehefin 2027, gyda dadl yn y Cyfarfod Llawn i ddilyn yn fuan wedi hynny.

**Ar werth am arian**

**59.** Ystyriwyd bod gwerth am arian yn gysyniad anodd i'w asesu'n gywir yng nghyd-destun y Ddeddf. Awgrymodd rhai bod ystyriaethau gwerth am arian yn groes i nodau hirdymor y Ddeddf.

**60.** O ran adnoddau ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, nodwn yr adborth cadarnhaol a gafwyd gan randdeiliaid fod y Comisiynydd a'i swyddfa yn cynnig gwerth da am arian. Rydym yn poeni am addasrwydd hirdymor trefniadau cyllido i swyddfa'r Comisiynydd, yn enwedig mewn perthynas â chyllido adolygiadau a20, ac yn rhoi mwy o sylw i'r rhain yn ein hadran ar orfodi.

# 4. Gweithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy

Er mwyn defnyddio'r Ddeddf, mae angen i bobl fod yn ymwybodol o'r Ddeddf. Wrth weithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, mae llawer mwy i'w wneud i ymwreiddio'r ffyrdd o weithio, yn enwedig atal a chynnwys yng ngwead gwasanaethau cyhoeddus.

## Ymwybyddiaeth ar lawr gwlad

**61.** Un o ganfyddiadau ein gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd oedd bod ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Ddeddf yn isel ar y cyfan ac, o'r pum ffordd o weithio, cynnwys pobl oedd y thema wannaf. Yn ôl yr adroddiad:

> *"O ddylunio gofal iechyd a lleoli ynni i ddarpariaeth ddiwylliannol a chynllunio lleol, roedd llawer yn teimlo nad oeddent yn cael eu clywed neu eu bod yn cael eu heithrio—yn enwedig pobl anabl, trigolion gwledig, gofalwyr a theuluoedd incwm isel. Roedd tegwch a chynhwysiant gwirioneddol yn hanfodol er mwyn i uchelgeisiau'r Ddeddf lwyddo."*[33]

**62.** Roedd yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau yn un o nifer o randdeiliaid a ddywedodd wrthym fod ymwybyddiaeth o'r Ddeddf ar lawr gwlad yn isel:

> *"Many of the community groups we work with have little or no awareness of the Act despite almost all of their work contributing to wellbeing in one way or another. In this sense there is a very big divide between national third sector organisations who are among the Act's biggest supporters and local community groups (the vast majority in Wales) who are largely ignorant of it."*[34]

**63.** Yn yr un modd, dywedodd y cyn-Weinidog, Jane Davidson, fod y diddordeb rhyngwladol sylweddol yn y ddeddfwriaeth yn cyferbynnu â'r ffaith bod yna liaws

[33] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Crynodeb o'r Gwaith Ymgysylltu, Tachwedd 2025
[34] SWFGA 56 Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

o bobl yng Nghymru sydd ddim hyd yn oed yn gwybod bod ganddynt y fath ddeddfwriaeth.[35]

**64.** Tynnodd cynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol sylw at bwysigrwydd sicrhau bod y cyhoedd yn cymryd rhan, ond teimlent mai'r peth pwysig oedd eu bod yn ymwybodol o'r ffyrdd o weithio, o ran sut y mae cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda nhw fel aelodau o'r gymuned, yn hytrach na'u bod yn deall holl fanylion y Ddeddf.[36]

**65.** Cydnabu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fod problem ynghylch ymwybyddiaeth, yn enwedig o ran sut y mae cyrff cyhoeddus yn cynnwys y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau. Pwysleisiodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fod ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r hyn y dylai cyrff cyhoeddus fod yn ei gyflawni yn hanfodol er mwyn eu dwyn i gyfrif, fel ein bod yn fwy tebygol o weld y penderfyniadau cywir yn cael eu gwneud a'r camau cywir yn cael eu cymryd ymhob man.[37]

**66.** Rhannodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ganfyddiadau arolwg o randdeiliaid a awgrymodd fod gan bron i 80 y cant ddealltwriaeth eithaf da, da iawn neu arbenigol o'r Ddeddf. Mewn cyferbyniad, dim ond ymwybyddiaeth sylfaenol o'r Ddeddf, os o gwbl, oedd gan 1 o bob 5, a dywedodd 4 y cant ohonynt nad oeddent erioed wedi clywed am y Ddeddf.[38]

**67.** Yn ôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Peter Davies, roedd y sgwrs 'Y Gymru a Garem' yn 2014, a lywiodd y gwaith o ddrafftio'r Ddeddf, wedi helpu gydag ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r ddeddfwriaeth. Gwnaethant alw am ailadrodd yr ymarfer gan edrych ar Gymru yn 2100.[39]

## Barn Llywodraeth Cymru

**68.** Roedd yr Ysgrifennydd Cabinet yn cytuno bod codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Ddeddf yn hanfodol. Cyfeiriodd at ddigwyddiadau yn 2025 i nodi dengmlwyddiant y Ddeddf, ond dywedodd y dylai hwn fod yn bwynt allweddol ar gyfer gwerthuso, o ran sut y gallwn godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Ddeddf a'i heffeithiau.

[35] Cofnod y Trafodion, para. 36, 30 Mehefin 2025
[36] Cofnod y Trafodion, para 385, 7 Gorffennaf 2025
[37] Cofnod y Trafodion para. 24, 25, 10 Tachwedd 2025
[38] Papur i'w nodi 4.1: gohebiaeth gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ynghylch arolwg rhanddeiliaid, 15 Rhagfyr 2025
[39] Cofnod y Trafodion, para. 27, 10 Tachwedd 2025

**69.** Dywedodd y byddai sgwrs genedlaethol i baratoi ar gyfer nodau datblygu cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig ar gyfer 2030 yn hanfodol a chytunodd y byddai Llywodraeth Cymru eisiau ailadrodd y sgwrs 'Y Gymru a Garem'. Tynnodd sylw at y ffaith bod swyddogion yn ymgysylltu â'r Cenhedloedd Unedig, sydd o'r farn bod Cymru ar flaen y gad yn hyn o beth.

## Yr egwyddor datblygu cynaliadwy

**70.** Mae Adran 5 o'r Ddeddf yn amlinellu sut y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithredu i ddangos eu bod yn gweithio yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Cyfeirir at y rhain weithiau fel "y ffyrdd o weithio": integreiddio, cydweithio, meddwl yn yr hirdymor, atal a chynnwys.

**71.** Yn ôl ei ddadansoddiad, canfu'r Sefydliad Materion Cymreig:

> *"significant variance in the application of the different ways of working across our public bodies. Involvement and integration are the least frequently applied principles evident in their wellbeing strategies. This suggests that public bodies are still on a journey in delivering against the ways of working, especially those that have a higher bar to implement.*[40]

**72.** Pwysleisiodd Dr Lindsay Cordery-Bruce o CGGC yr angen i feddwl yn yr hirdymor, yn enwedig o ran cyllid:

> *"The short-termism of charity sector funding is literally the antithesis of what we are trying to achieve with the Future Generations Act. We want to strategise long term; we want to take a longer-term view; we want to be responsible ancestors. But, if you don't know whether you're going to be here within six months' time, it's really, really difficult to do that, so that's at the core of the strength of our response."*[41]

## Pwysigrwydd cymryd rhan

**73.** Nododd ein gwaith ymgysylltu helaeth â'r cyhoedd rwystredigaeth sylweddol nad oedd unrhyw un yn gwrando arnynt, gyda'r gred bod uchelgais y Ddeddf am

[40] SWFGA 11 Y Sefydliad materion Cymreig
[41] Cofnod y Trafodion, para. 376, 7 Gorffennaf 2025

gyfranogi gwirioneddol yn aml yn methu yn ymarferol. Fel yr amlinellwyd yn ein crynodeb:

> *"Disgrifiodd y cyfranogwyr ymgyrchoedd yn erbyn datblygiadau tai, pryderon am garthffosiaeth ac afonydd yn cael eu hanwybyddu, ac ymgynghoriadau a oedd yn teimlo'n anhygyrch neu'n symbolaidd."*[42]

Dywedodd un cyfranogwr:

> *"Mae'r gymuned yn dweud wrth y cyngor beth maen nhw ei eisiau, ac mae'r cyngor yn eu hanwybyddu. Maen nhw'n gwrando dim ond pan mae'n ymwneud â rhywbeth bach, fel dewis meinciau ar gyfer parc, ond byth ar gyfer unrhyw beth pwysig. Ychydig o wahaniaeth mae ein barn yn ei wneud ar faterion dadleuol."*[43]

**74.** Gwnaeth sawl sefydliad, gan gynnwys Plant yng Nghymru, Race Equality First a'r Comisiynydd Plant, dynnu sylw at yr angen i wella cyfranogiad ystyrlon rhai grwpiau demograffig neu gymunedau penodol, gan gynnwys grwpiau ethnig leiafrifol, plant a phobl ifanc a'r trydydd sector.[44]

**75.** Yn ôl ymchwil gan Dr Anwen Elias o Brifysgol Aberystwyth, nodwyd cyfranogi fel rhywbeth arbennig o wan: mae tystiolaeth bod cynllunio, gwneud penderfyniadau a gwerthuso wedi methu â chynnwys y cymunedau yr effeithir arnynt, a bod cyrff cyhoeddus wedi gwneud newidiadau syml yn unig, os o gwbl, i'w prosesau cynnwys o ganlyniad i'r Ddeddf.[45]

## Ffocws ar atal

**76.** Cwynodd cyfranwyr am y diffyg sylw i atal, gan gyfeirio at gylchoedd cyllideb tymor byr a methiant i symud at wariant mwy ataliol.[46] Mae'r materion hyn wedi

---

[42] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Crynodeb o'r Gwaith Ymgysylltu, Tachwedd 2025
[43] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Crynodeb o'r Gwaith Ymgysylltu, Tachwedd 2025
[44] SWFGA 48 Plant yng Nghymru; SWFGA 26 Race Equality First; SWFGA 54 Y Comisiynydd Plant
[45] SWFGA 53 Dr Anwen Elias, Prifysgol Aberystwyth
[46] SWFGA 18 CLlLC; SWFGA 33 Conffederasiwn GIG Cymru; SWFGA 07 Cyngor Dinas Casnewydd; SWFGA 20 Cyngor Bro Morgannwg; SWFGA 31 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru; SWFGA 13 Cymdeithas Chwaraeon Cymru; SWFGA 57 Cyngor Celfyddydau Cymru, SWFGA 11 Y Sefydliad Materion Cymreig, SWFGA 05 Dr Lucia Attla, Prifysgol Abertawe, SWFGA 38 Gofal a Thrwsio Cymru

cael eu codi'n rheolaidd mewn ymholiadau ac adroddiadau blaenorol yn ymwneud â'r Ddeddf.

**77.** Crisialwyd y broblem gan Gonffederasiwn GIG Cymru fel a ganlyn:

> *"The key challenge remains the tension between the Act's long-term strategic vision and the immediate operational and fiscal pressures facing public sector bodies."*[47]

**78.** Dywedodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru fod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau wedi methu â defnyddio'r Ddeddf i wneud penderfyniadau gwirioneddol wahanol a'u bod yn dibynnu'n rhy aml ar dorri gwasanaethau anstatudol sy'n cyflawni lles hirdymor er mwyn delio â phwysau ariannol tymor byr.[48]

**79.** Cododd Dr Eleanor McKillop a Choleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol faterion ynghylch sut y mae cyllidebau'n cael eu rheoli a'r angen am ddulliau mwy cyfranogol ac ataliol o gyllidebu.[49] Nododd Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL) fod tua 50% o wariant Llywodraeth Cymru wedi'i asesu fel gwariant sy'n cael effaith negyddol ar yr hinsawdd ac ar natur.[50]

**80.** Pwysleisiodd dinasyddion a gymerodd ran yn ein gwaith ymgysylltu hefyd y diffyg meddylfryd ataliol, hirdymor mewn perthynas â chyllid cyhoeddus:

> *"Dywedwyd bod rheolau anhyblyg a chylchoedd cyllidebu tymor byr yn annog gwariant gwastraffus ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, yn hytrach na buddsoddiad strategol. Dadleuodd llawer y byddai rhoi mwy o amser i awdurdodau wario arian, neu ganiatáu iddynt gynilo ar gyfer prosiectau mwy, yn arwain at ganlyniadau gwell. Cysylltodd eraill fregusrwydd â risg systemig, gan rybuddio am gwymp: 'Mae pob ysgol, bwrdd iechyd yn y coch… cyn bo hir, bydd hyn i gyd yn cwympo fel dominos."*[51]

[47] SWFGA 33 Conffederasiwn GIG Cymru
[48] SWFGA 13 Cymdeithas Chwaraeon Cymru
[49] Cofnod y Trafodion, para. 64, 23 Mehefin 2025; SWFGA 09 Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol; SWFGA 33 Conffederasiwn GIG Cymru
[50] SWFGA 47 Cyswllt Amgylchedd Cymru
[51] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Crynodeb o'r Gwaith Ymgysylltu, Tachwedd 2025

**81.** Gwnaed argymhellion ynghylch atal mewn adroddiadau diweddar gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Archwilydd Cyffredinol. [52] Yn adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025, galwodd y Comisiynydd am i wariant ataliol gael ei glustnodi.[53] Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylai Llywodraeth Cymru archwilio ffyrdd eraill o gynyddu buddsoddiad mewn atal a oedd yn ategu hyn, gan gynnwys:

- cryfhau'r ddealltwriaeth o atal ar draws cyrff cyhoeddus;
- gwreiddio atal ym mhroses y gyllideb; a
- dysgu oddi wrth eraill y tu hwnt i Gymru.

**82.** Yn wahanol i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, fodd bynnag, nid oedd y dull a argymhellwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn gorfodi clustnodi gwariant, gan adael y posibilrwydd o gyllid wedi'i ddadneilltuo o bosibl.[54]

## Barn Llywodraeth Cymru

**83.** Gwrthododd Llywodraeth Cymru yr argymhellion hyn gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Archwilydd Cyffredinol a dadleuodd fod ganddi "egwyddor hirdymor… i geisio osgoi neilltuo cyllid gan y gall hyn leihau gallu sefydliadau i reoli eu cyllidebau eu hunain yn unol â'u cyfrifoldebau"[55].

**84.** Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet ymhelaethu ar hyn:

> *"…the thing is that it is quite difficult to isolate what funding would be for prevention and early intervention without undermining the broader approach to prevention, because a preventative way of working should influence every policy decision that you make."*[56]

[52] Archwilio Cymru, Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, 29 Ebrill 2025
[53] Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025
[54] Archwilio Cymru, Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, 29 Ebrill 2025
[55] Ymateb Llywodraeth Cymru i Dim Amser i'w Golli ac Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025
[56] Cofnod y Trafodion, para. 34, 1 Rhagfyr 2025

## Canllawiau statudol

**85.** Y farn gyffredinol yw bod y canllawiau statudol sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf wedi bod yn ddefnyddiol.[57] Fodd bynnag, roedd rhai cynghorau lleol, BCT, CLlLC ac eraill yn poeni eu bod yn rhy ragnodol neu'n pwysleisio proses dros ganlyniadau.

**86.** Roedd consensws cyffredinol y dylid eu hadolygu.

**87.** Galwodd sawl sefydliad am ganllawiau mwy penodol ac am iddynt gynnwys enghreifftiau ymarferol ac astudiaethau achos.[58] Galwodd Trafnidiaeth Cymru am gymorth wedi'i deilwra i sectorau penodol ac enghreifftiau ymarferol yn y canllawiau i helpu gydag eglurder.

**88.** Roedd Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru a'r Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau yn dadlau y dylai'r canllawiau roi mwy o ystyriaeth i rôl y trydydd sector, gyda BCT yn nodi bod llawer o grwpiau trydydd sector a chymunedol yn ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb am feysydd a arferai fod yn gyfrifoldeb i'r sector cyhoeddus yn unig.[59]

**89.** Dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru:

> *"Ymddengys hefyd fod yna fater o'r Deddf yn darparu canllawiau o ddwy ffynhonnell i bob pwrpas, er, o ran un ffynhonnell (y Comisiynydd), mae hyn wedi'i labelu'n 'cyngor neu gymorth'. Efallai y byddai'n werth ystyried a allai trefniadau ar gyfer canllawiau gael eu symleiddio a'i gwneud yn fwy cadarn, gan gryfhau sefyllfa'r Comisiynydd. Efallai y gellid gwneud hyn drwy drosglwyddo swyddogaeth Gweinidogion Cymru o gyhoeddi canllawiau…i'r Comisiynydd."*[60]

[57] SWFGA 15 Iechyd Cyhoeddus Cymru, SWFGA 36 Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru; SWFGA 56 Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau; SWFGA 18 CLlLC
[58] Cynghorau lleol yn cynnwys SWFGA 44 Cyngor Abertawe, SWFGA 51 Un llais Cymru, SWFGA 23 Trafnidiaeth Cymru, SWFGA 37 Rewilding UK ac eraill
[59] SWFGA 16 Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu; SWFGA 56 Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau
[60] SWFGA 59 Archwilio Cymru

## Ein barn ni

### Ar ymwybyddiaeth a chyfranogi

**90.** Os yw cyrff cyhoeddus i gael eu dwyn i gyfrif am gyflawni gweledigaeth y Ddeddf, yna mae ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd yn allweddol. Mae angen i ddinasyddion fod yn ymwybodol o'r Ddeddf, a defnyddio'r Ddeddf, ac mae'n rhwystredig bod lefelau ymwybyddiaeth yn gyffredinol isel. Un ffordd ddefnyddiol o godi ymwybyddiaeth yw drwy gynnwys y cyhoedd. Mae angen mwy o gynnydd o ran cynnwys y cyhoedd mewn penderfyniadau a grymuso pob un dinesydd mewn byd cynyddol anwadal.

**Argymhelliad 2.** Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru ymgymryd ag ymarfer tebyg i'r sgwrs Y Gymru a Garem fel rhan o'r paratoadau ar gyfer Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig 2030. Dylid defnyddio'r ymarfer i roi egwyddorion y Ddeddf ar waith a defnyddio cyfranogi fel arf i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth. Dylai'r ymarfer hwn fod yn uchelgeisiol ei gyrhaeddiad a dylai gyrraedd ein cymunedau ledled y wlad. Dylai'r broses gael ei chwblhau erbyn diwedd 2029 fan bellaf.

### Ar atal

**91.** Mae'n amlwg i ni mai'r methiant i ymwreiddio atal drwy'r broses o wneud penderfyniadau yw'r her fwyaf dybryd i'w datrys o ran rhagolygon y dyfodol ar gyfer y ddeddfwriaeth a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mewn ymateb i adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, mae Llywodraeth Cymru wedi dadlau, gan y dylai atal ddylanwadu ar bob penderfyniad a wneir gan gyrff cyhoeddus, y byddai'n anodd ynysu gwariant ar atal ac ymyrraeth gynnar heb danseilio'r ymagwedd ehangach. Nid ydym yn derbyn y ddadl hon.

**92.** Mae'n well gan Lywodraeth Cymru beidio â chlustnodi gwariant oherwydd y risg o'r hyn y mae'n ei ystyried yn feicroreoli ac rydym yn cydnabod y safbwynt hwn. Fodd bynnag, mae argymhellion Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Archwilydd Cyffredinol yn pwysleisio'n glir yr angen i oresgyn y cyndynrwydd hwn. At hynny, mae argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol yn awgrymu dull ehangach, mwy goddefol sy'n cynnwys edrych ar ffyrdd eraill, cyflenwol o fuddsoddi mewn atal. Gall y rhain gynnwys clustnodi arian, ond gallent hefyd olygu'r gwrthwyneb ar ffurf mwy o ryddid o ran cyllido a llai o glustnodi.

**93.** Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn ailystyried ei hymateb i argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol ac yn ystyried ymhellach y ffyrdd cyflenwol eraill o annog buddsoddiad (ein pwyslais ni) mewn atal.

**Argymhelliad 3.** Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gymryd camau i wella dealltwriaeth o'r egwyddor atal gan gyrff cyhoeddus, a sut y caiff yr egwyddor honno ei gweithredu, a dylai ailystyried yr ymateb i argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas ag atal. Rydym yn cymeradwyo'r argymhelliad hwnnw a'i alwadau ar Lywodraeth Cymru i weithio i:

- gryfhau'r ddealltwriaeth am lefelau buddsoddi mewn atal a'i effaith;
- adeiladu ar waith i wreiddio atal ym mhroses y gyllideb gan ystyried, er enghraifft, gyfleoedd i ddod â chyllid ynghyd ar draws gwahanol rannau o'r system i gefnogi atal;
- cymell a diogelu gwariant ataliol ar lefel leol; a
- dysgu oddi wrth eraill y tu hwnt i Gymru, er enghraifft, gan ystyried gwaith y mae CIPFA yn ei wneud ar ddeall gwariant ataliol.

**Ar y canllawiau**

**94.** Nodwn fod llawer o gyfranwyr yn gadarnhaol ynghylch y canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf ac mae'n rhaid canmol Llywodraeth Cymru am y derbyniad gwresog a gawsant. O ystyried bod dros 10 mlynedd bellach ers iddynt gael eu cyhoeddi, mae achos clir dros eu hadolygu i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn adlewyrchu canlyniad yr ymchwiliad hwn ac ymchwiliadau eraill. Nodwn y dystiolaeth sy'n galw am fwy o enghreifftiau ymarferol ac astudiaethau achos a chredwn y byddai hyn yn fuddiol.

**Casgliad 2.** Rydym yn cytuno bod angen adolygu'r canllawiau ac y dylai hyn ystyried canfyddiadau'r ymchwiliad hwn ac ymchwiliadau eraill.

# 5. Cyrff cyhoeddus, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r dirwedd bartneriaeth

Mae cydweithio gan gyrff cyhoeddus yn allweddol i weledigaeth y Ddeddf. Cafodd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu cynllunio i'r perwyl hwn. Fodd bynnag, maen nhw'n gweithredu mewn tirwedd bartneriaeth sy'n gynyddol gymhleth, sydd angen gwell cydlyniant.

## Y cyrff cyhoeddus sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf

**95.** Mae 56 corff yn ddarostyngedig i'r Ddeddf ar hyn o bryd, ar ôl iddi gael ei hymestyn i wyth corff cyhoeddus ychwanegol yn 2024. Tynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet sylw at sut y gallai cyrff cyhoeddus pellach ddod yn ddarostyngedig i'r Ddeddf o ganlyniad i ddeddfwriaeth megis Deddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) 2025 a Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru).[61]

**96.** Roedd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cefnogi cynnwys wyth corff ychwanegol yn 2024, ond dadleuodd y dylai hynny fod wedi digwydd cyn gynted ag y cawsant eu sefydlu, nid fel ymarfer twtio flynyddoedd lawer ar ôl eu sefydlu. Awgrymodd y dylai cyrff cyhoeddus ddod o dan y Ddeddf cyn gynted ag y'u sefydlir.[62]

**97.** Esboniodd y Comisiynydd ei fod wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn iddi esblygu ei meini prawf fel y gellid cynnwys mwy o gyrff, ac awgrymodd y dylai cyrff megis Estyn a Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (yr Arolygiaeth Gynllunio gynt) ddod o dan y Ddeddf.[63]

**98.** Mae meini prawf Llywodraeth Cymru yn cwmpasu pedair agwedd: cyllid, effaith ar lesiant, swyddogaethau ac a oes modd archwilio'r corff cyhoeddus. Nododd ei dogfen ymgynghori flaenorol:

---

[61] Tystiolaeth ysgrifenedig gan yr Ysgrifennydd Cabinet, 1 Rhagfyr 2025
[62] Cofnod y Trafodion, para 31, Tachwedd 2025
[63] Cofnod y Trafodion, para 35, Tachwedd 2025

> *"Nid yw cyrff cynghori, tribiwnlysoedd a chyrff arolygu wedi'u cynnwys gan nad oes ganddynt swyddogaethau gweithredol ac nid ystyrir eu bod yn bodloni'r prawf swyddogaethau o fod â swyddogaethau strategol sy'n berthnasol i Ddeddf LlCD."*[64]

**99.** Mewn perthynas â'r rhai nad ydynt wedi'u cynnwys, awgrymodd Cwmpas fod rôl y trydydd sector/mentrau cymdeithasol/y sector nid-er-elw yn hanfodol wrth gyflawni uchelgeisiau'r Ddeddf ond, oherwydd nad yw'r sector wedi'i rwymo'n gyfreithiol ganddi, nid yw rôl sefydliadau o'r fath fel partner cyflenwi allweddol wedi'i hymwreiddio'n ddigon dwfn.[65]

**100.** Yn yr un modd, nododd Cyngor Dinas Casnewydd:

> *"… there are numerous third sector organisations and bodies that fall outside the scope of the Act and are not required to comply…This can affect the collaboration between the public bodies listed in the Act and these external organisations, particularly in areas such as service commissioning."*

## Barn Llywodraeth Cymru

**101.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y pedwar maen prawf a ddefnyddir i benderfynu a ddylid dod â chyrff cyhoeddus o dan gwmpas y Ddeddf yn dal i sefyll ac nad oeddent wedi cael eu hadolygu.

**102.** O ran rôl y trydydd sector, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod gan "bob BGC gynrychiolaeth ffurfiol yn y trydydd sector, fel arfer drwy gynghorau gwirfoddol lleol neu sefydliadau ymbarél." Roedd sefydliadau'r trydydd sector yn dylanwadu ar waith BGCau drwy amrywiaeth o fecanweithiau, gan gynnwys: "statws gwahoddiad statudol, hawliau aelodaeth cyfartal, cyfranogiad mewn is-grwpiau, ac mewn rhai achosion rolau arweinyddiaeth"[66].

[64] Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad ar gyrff cyhoeddus ychwanegol sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant (Rhan 2), 14 Gorffennaf 2022
[65] SWFGA 17 Cwmpas
[66] Gohebiaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet

## Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau)

**103.** Mae Rhan 4 o'r Ddeddf yn creu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus neu BGCau y mae eu haelodau statudol yn cynnwys: yr awdurdod lleol; y bwrdd iechyd lleol; yr awdurdod tân ac achub a Cyfoeth Naturiol Cymru.

**104.** Rhaid gwahodd y cyrff canlynol i gymryd rhan:

- Gweinidogion Cymru;
- Y Prif Gwnstabliaid;
- Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu;
- Gwasanaethau prawf perthnasol;
- O leiaf un corff sy'n cynrychioli mudiadau gwirfoddol perthnasol.[67]

**105.** Yn ogystal, gall BGCau wahodd eraill i gymryd rhan, ar yr amod eu bod yn arfer swyddogaeth gyhoeddus. Mae BGCau rhai awdurdodau lleol wedi uno â BGCau cyfagos eraill, ac mae 13 ar waith ar hyn o bryd.

**106.** Mae strwythurau partneriaeth nodedig eraill yn bodoli ac, yn aml, maen nhw'n gweithredu gydag aelodaethau tebyg i BGCau. Mae'r rhain yn cynnwys Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau) a gyflwynwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Chyd-bwyllgorau Corfforedig (CJCs) a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.[68]

## Y dirwedd bartneriaeth

**107.** Awgrymodd cryn dipyn o dystiolaeth gan elusennau amgylcheddol, prifysgolion, cynghorau lleol a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus fod y dirwedd bartneriaeth bresennol yn rhy gymhleth.[69]

---

[67] Llywodraeth Cymru, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
[68] ANAW4 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; ASC1 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
[69] SWFGA 07 Cyngor Dinas Casnewydd; SWFGA 08 Prifysgol Wrecsam; SWFGA 12 Gwasanaeth Natur Cymru; SWFGA 16 Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru; SWFGA 15 Iechyd Cyhoeddus Cymru; SWFGA 22 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, SWFGA 21 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, SWFGA 28 Peter Davies; SWFGA 56 Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST), Conffederasiwn GIG Cymru (Conffederasiwn y GIG), Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL)

**108.** Dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol:

> *"My predecessor and I have consistently called for [the] Welsh Government and public bodies to simplify the partnership landscape in Wales, which is complex and confusing, adding to capacity and resource pressures."*

**109.** Disgrifiodd WAST y dirwedd fel un

> *"cluttered".*[70]

**110.** Nododd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ffiniau daearyddol gwahanol ac anghyson fel rhwystr i weithio mewn partneriaeth, gan eu disgrifio fel

> *"challenging and ineffective".*[71]

**111.** Awgrymodd Iechyd Cyhoeddus Cymru, CLlLC ac eraill nad oedd gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus lawer o ddylanwad o gymharu â strwythurau eraill megis BPRhau neu Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Gwnaethant dynnu sylw at y risg o ddyblygu, gan alw am fwy o eglurder ynglŷn â rôl pob partneriaeth, gan gynnwys diweddaru canllawiau lle y bo angen.[72]

**112.** Dywedodd Robyn Lovelock o Gyngor Bwrdeistref Sirol Sir Ddinbych wrthym fod llawer o ddryswch o hyd ynghylch llesiant economaidd a'r rhyngweithio rhwng rôl BGCau, Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'r Ddeddf.

**113.** Daeth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i'r casgliad canlynol:

> *"We haven't got the time or the capacity in Wales, with all the cuts that we've faced and all the demands that we've got, to be spending time on partnership arrangements that are not delivering. My perspective is that we've been adding structures—recently the corporate joint committees—without taking structures away."*[73]

---

[70] SWFGA 21 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro; SWFGA 28 Peter Davies; SWFGA 56 Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau;
[71] SWFGA 21 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
[72] SWFGA 18 CLlLC, SWFGA 15 Iechyd Cyhoeddus Cymru, SWFGA 43 Anne Tubajdi, Prifysgol Abertawe
[73] Cofnod y Trafodion, para 60, 10 Tachwedd 2025

**114.** Mynegodd y Cynghorydd Mary Ann Brocklesby farn na fyddai hi eisiau gweld uno er mwyn uno ond, yn hytrach, argymhellodd y dylid cymryd cam yn ôl i ofyn beth sy'n gweithio:

> *"Rather than having to collaborate, asking 'What actually works?', and allowing us to collaborate effectively in ways that really shift to thinking about the outcomes and impacts. [...] I think there is need for a very thoughtful conversation and deliberation around what the regional structure should look like, because one thing I think we all agree on is that there are areas where working regionally is much better in terms of outcomes."*[74]

## Barn Llywodraeth Cymru

**115.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod gwaith yn cael ei wneud i adolygu a yw'r holl strwythurau'n alinio'n briodol ac a yw eu swyddogaethau'n briodol. Cydnabu bod hwn yn fater y mae'n rhaid i ni ei ystyried o ddifrif os yw'n creu rhwystrau a bod angen i ni symleiddio.[75]

## Rôl ac aelodaeth BGCau

**116.** Cododd sawl cyfrannwr gwestiynau ynghylch rôl ac effeithiolrwydd BGCau. Dywedodd y cyn-Gomisiynydd, Peter Davies, mai nod gwreiddiol y BGCau oedd cyflawni gweledigaeth gyffredin y Ddeddf ond yr ymddengys eu bod yn or-seiliedig ar brosesau ac mai cyfyngedig yn unig oedd eu heffaith.

**117.** Disgrifiodd Cyngor Sir Dinbych BGCau fel cysyniad gwerthfawr a hanfodol o ran cyflwyno'r Ddeddf ond, heb bŵer na chyllid, mai ychydig o allu oedd ganddynt i ddylanwadu ar benderfyniadau sydd fel arfer yn cael eu gwneud mewn mannau eraill gan gyrff/partneriaethau sydd â chyllid.[76]

**118.** Dywedodd y Sefydliad Materion Cymreig nad oedd yn glir beth yw eu pwrpas nac yn wir beth maen nhw wedi'i gyflawni.[77]

**119.** Nododd nifer o gyfranwyr, gan gynnwys cynghorau lleol, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Dr. Anwen Elias, Prifysgol Aberystwyth, nad oedd gan

[74] Cofnod y Trafodion, para. 101, 7 Gorffennaf 2025
[75] Cofnod y Trafodion, para. 60-61, 1 Rhagfyr 2025
[76] SWFGA 14 Cyngor Sir Dinbych
[77] SWFGA 11 Y Sefydliad Materion Cymreig

BGCau hunaniaeth gyfreithiol ac nad oedd modd iddynt ddal cronfeydd na chyflogi staff.[78]

**120.** Mae Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru yn cydnabod bod BGCau weithiau'n cael eu gweld fel cyrff nad oes ganddynt fandad nac awdurdod digonol, a thynnodd sylw at bryderon ynghylch dyblygu ymdrech. Fodd bynnag, er ei fod yn cydnabod nad oes gan BGCau gyllid pwrpasol, awgrymodd nad yw llawer yn defnyddio unrhyw arian sydd ar gael iddynt yn llawn yn sgil dod â phartneriaid at ei gilydd.

**121.** O ran yr aelodaeth, awgrymodd y Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu fod diffyg cymharol o ran cynrychiolaeth trydydd sector, gan ddweud:

> *"The statutory distinction between 'members' and 'invited participants' contributes to a perceived and actual hierarchy, which can exclude valuable experience and grassroots insight."*[79]

**122.** Gwnaed yr un pwynt gan yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau, a ddywedodd y byddai dilyn y canllawiau statudol i lythyren y ddeddf yn golygu bod angen gwahodd unrhyw sefydliad trydydd sector neu grŵp cymunedol i gymryd rhan yn y BGC.[80]

**123.** Dywedodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro nad yw'n glir sut y mae rhai sefydliadau cenedlaethol megis Chwaraeon Cymru, Amgueddfa Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru yn cyfrannu at y broses ac yn dylanwadu ar gynlluniau llesiant. Awgrymodd Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru hefyd fod angen eglurder ynghylch rôl Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd mewn perthynas â BGCau.[81]

**124.** Nododd Un Llais Cymru mai dim ond Cynghorau Tref a Chymuned (CTChau) mwy sydd â phraeseptau dros £200,000 ym mhob un o'r tair blwyddyn ariannol flaenorol sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith i gyfrannu at waith BGCau. Gall hyn olygu bod rhai CTChau yn dod i mewn ac allan o gwmpas y Ddeddf. O ran ymgysylltu rhwng BGCau a CTChau, dywedodd Un Llais Cymru fod BGCau naill ai wedi ymgysylltu'n llac â'n sector neu heb ymgysylltu ag ef o gwbl.[82] Awgrymodd

[78] SWFGA 10 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru; SWFGA 20 Cyngor Bro Morgannwg; SWFGA 53 Dr Anwen Elias, SWFGA 43 Anne Tubajdi, Prifysgol Abertawe
[79] SWFGA 16 Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru
[80] SWFGA 56 Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau
[81] SWFGA 21 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro; SWFGA 16 Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru
[82] SWFGA 51 Un Llais Cymru; SWFGA 29 Cyngor Cymuned Llandochau

Prifysgol Wrecsam a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y dylid edrych ar gyfranogiad CTChau mewn BGCau.[83]

### Craffu ar BGCau

**125.** Galwodd sawl cyfrannwr am i'r broses o graffu ar BGCau gael ei gwella.[84]

**126.** Yn benodol, dadleuodd y Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu dros ddulliau mwy cyhoeddus a chyfranogol, gan dynnu sylw at y ffaith bod agor cyfarfodydd BGCau i'r cyhoedd wedi newid y diwylliant ac wedi galluogi deialog adeiladol, agored.

**127.** Dywedodd y Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu hefyd fod trefniadau craffu presennol mewn perthynas â BGCau yn cael eu gwneud yn bennaf drwy bwyllgorau awdurdodau lleol a all, yn anfwriadol, atgyfnerthu'r anghydbwysedd pŵer presennol ac nid ydynt bob amser yn adlewyrchu'r ethos cydweithredol, seiliedig ar bartneriaeth sydd wrth wraidd BGCau[85].

## Barn Llywodraeth Cymru

**128.** Dywedodd Llywodraeth Cymru fod BGCau yn "rhan hanfodol o'r gwaith o leoleiddio nodau llesiant Cymru". O ran cyllid, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym mai "mater i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yw penderfynu sut maent yn darparu adnoddau ar gyfer eu gwaith ar y cyd – gan gynnwys cyfuno adnoddau a chyllid". Fodd bynnag, "gwelwyd graddau amrywiol o lwyddiant wrth gyfuno cyllid".[86] Serch hynny, yn ôl yr Ysgrifennydd Cabinet, er nad oes ganddynt eu cyllidebau eu hunain ac nad ydynt yn cyflogi staff, eu bod yn dod â phobl at ei gilydd ac yn cyfrannu cryfderau ac adnoddau.[87]

**129.** Tynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet sylw hefyd at waith y Grŵp Cynnydd Cryfhau BGCau a ffurfiwyd i wella'r ffordd y mae BGCau yn gweithredu, yn cydweithio ac yn cael effaith. Byddai hyn yn cynnwys datblygu canllawiau monitro a gwerthuso newydd a datblygu adnoddau i egluro eu rolau a chynyddu gwelededd eu gwaith.

**130.** O ran y gofynion ar y BGCau sy'n ymwneud ag asesiadau a chynlluniau llesiant, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod Llywodraeth Cymru yn ystyried

[83] SWFGA 08 Prifysgol Wrecsam
[84] SWFGA 50 Chwaraeon Cymru; SWFGA 15 Iechyd Cyhoeddus Cymru; SWFGA 45 CGGC; SWFGA 16 Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru
[85] SWFGA 16 Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru
[86] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Eitem 2, papur tystiolaeth, 4 Rhagfyr 2025
[87] Cofnod y Trafodion, para. 66, 1 Rhagfyr 2025

cael gwared ar elfennau rhy ragnodol o'r canllawiau ond y byddai newid yr amserlenni yn gofyn am newidiadau deddfwriaethol.[88]

## Ein barn ni

### Ar y dirwedd gwasanaethau cyhoeddus ehangach

**131.** Yn y deng mlynedd ers pasio'r Ddeddf, mae'r dirwedd bartneriaeth gwasanaethau cyhoeddus wedi parhau i dyfu, gydag ychydig iawn o strwythurau'n cael eu rhesymoli neu eu symleiddio. Y canlyniad fu 'cawl potsh' o drefniadau partneriaeth yr ymddengys nad oes ganddynt unrhyw gydlyniant cyffredinol. Mae strwythurau'n bwysig, ac er bod y cwestiwn o sut i'w diwygio y tu hwnt i gwmpas ein hymchwiliad, mae'n amlwg nad yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy.

**Casgliad 3.** Mae'n rhwystredig nodi bod y darlun wedi aros yr un fath i raddau helaeth ers adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar rwystrau i weithredu yn 2021. Bryd hynny, roeddent yn galw am eglurder ar y rhyngweithio rhwng gwahanol strwythurau partneriaeth ac am symleiddio a chydgrynhoi'r rhain i leihau ailadrodd a dyblygu.

**132.** Mae'r angen i symleiddio strwythurau partneriaeth a chyflwyno cyfres fwy cydlynol o drefniadau yn eu lle yn ddiymwad. Lle mae dulliau o'r gwaelod i fyny wedi methu yn y gorffennol, mae angen mwy o gyfarwyddyd o'r canol. Dylai hyn fod yn flaenoriaeth a'n gobaith yw y bydd adolygiad Llywodraeth Cymru yn cael ei ystyried gyda brwdfrydedd a brys.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth bresennol Cymru nodi amserlen a chwmpas manwl y gwaith y mae wedi ei gychwyn i adolygu strwythurau a'r aliniad rhwng partneriaethau presennol a'u swyddogaethau. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru gynnal adolygiad cynhwysfawr a sicrhau bod y broses:

- yn cael ei rhoi ar waith yn gyflym, gan adeiladu ar y dystiolaeth helaeth sydd eisoes yn bodoli sy'n cefnogi'r achos dros newid;
- yn cynnal ffocws clir ar symleiddio, cydgrynhoi a chydlyniant, gan sicrhau nad yw'r rhain yn cael eu tanseilio gan fuddiannau breintiedig na blaenoriaethau eraill;

[88] Cofnod y Trafodion, para. 77, 1 Rhagfyr 2025

- yn cael ei chynnal mewn modd amserol a'i chwblhau o fewn blwyddyn gyntaf tymor nesaf y Senedd (felly dim hwyrach na mis Mehefin 2027).

**Ar BGCau**

**133.** Mae angen ymdrech ar y cyd i wella dealltwriaeth o rôl a phwrpas BGCau. Yn amlwg, mae gwahaniaethau barn ar werth ac effeithiolrwydd BGCau. Mae rhai wedi dadlau eu bod yn chwarae rhan bwysig ac yn darparu gwerth ychwanegol go iawn, ond mae eraill wedi cwestiynu eu heffaith gan ofyn a ddylid rhoi blaenoriaeth i fforymau eraill, a allai fod yn fwy dylanwadol, megis Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

**134.** Nodwyd y ffaith na all BGCau ddal cyllidebau na chyflogi staff fel rhwystr sy'n llesteirio eu heffeithiolrwydd. Mae galluogi BGCau i gyflogi staff wedi'i grybwyll fel un ateb posibl. Fodd bynnag, ofnwn y byddai symudiadau o'r fath yn tanseilio ein dadleuon o blaid symleiddio a chydgrynhoi.

**Casgliad 4.** Ni fyddai galluogi BGCau i gyflogi staff o reidrwydd yn gwella eu heffeithiolrwydd. Byddai symud i'r cyfeiriad hwnnw'n tanseilio'r ddadl dros symleiddio a chydgrynhoi strwythurau. Mae lle i BGCau wneud gwell defnydd o bwerau presennol i gronni staff, adnoddau a chyllideb a chredwn y dylid archwilio'r rhain yn y lle cyntaf.

**Ar gynnwys a chraffu ar BGCau**

**135.** Nododd cynrychiolwyr y trydydd sector a Chynghorau Tref a Chymuned fod angen mynd i'r afael â rhwystrau i gyfranogwyr gwadd gymryd rhan. Nodwn y gallai canfyddiadau o hierarchaeth mewn aelodaeth fod yn rhwystro cyfranogiad sefydliadau'r trydydd sector, sefydliadau cymunedol a sefydliadau llawr gwlad.

**136.** Mae gwaith ar y gweill i gryfhau effeithiolrwydd BGCau drwy'r Grŵp Cynnydd Cryfhau BGCau. Edrychwn ymlaen at ystyriaethau'r Grŵp hwn o sut y gellid cryfhau'r broses o graffu ar waith y BGCau.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell y dylai'r Grŵp Cynnydd Cryfhau BGCau ystyried opsiynau ar gyfer cryfhau craffu ar waith BGCau ochr yn ochr â chamau i wella tryloywder a pha mor agored yw cyfarfodydd BGCau, gan gynnwys sut y maen nhw'n cynnwys cyfranogwyr eraill megis Cynghorau Tref a Chymuned, y trydydd sector a sefydliadau llawr gwlad. Nid yw'r argymhelliad hwn yn gofyn am newidiadau deddfwriaethol a dylid ei gwblhau o fewn blwyddyn gyntaf y Senedd newydd a heb fod yn hwyrach na Mehefin 2027.

# 6. Trefniadau cynllunio, monitro ac adrodd

Cyflwynodd y Ddeddf ystod o drefniadau cynllunio, monitro ac adrodd a gynlluniwyd i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu dyletswyddau ac yn cyflawni'r nodau llesiant. Yr her yw ymwreiddio'r rhain ymhob agwedd ar eu gweithgareddau a sicrhau nad yw'r broses yn cael ei blaenoriaethu dros ganlyniadau.

## Gofynion cynllunio ac adrodd

**137.** Mae'r Ddeddf yn gosod nifer o ofynion ar Weinidogion Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Archwilio Cymru, cyrff cyhoeddus a BGCau o ran gosod amcanion llesiant ac adolygu ac adrodd arnynt. Roedd cytundeb cyffredinol bod amcanion llesiant yn cael eu cynllunio'n ddigonol a'u bod yn destun adroddiadau digonol, ond y mater allweddol oedd beth yr oeddent yn ei gyflawni. Mynegodd sawl sefydliad bryderon bod y Ddeddf yn blaenoriaethu proses dros ganlyniadau. Gofynnodd ICC i ni ystyried a oedd gofynion y Ddeddf wedi:

> *"… 'shifted the dial' to make us more focused on long-term outcomes or whether we have increased the number of reporting mechanisms but remain largely focused on short-term performance measures."*[89]

**138.** Adleisiwyd hyn gan y Comisiynydd Pobl Hŷn a ddywedodd fod angen "mwy o bwyslais yn awr ar ganlyniadau yn hytrach nag ar lywodraethu a phrosesau".[90]

**139.** Dywedodd CLILC:

> *"while the reporting requirements are being met, there was a lack of engagement with them and that they are often ignored. Councils again underline the lack of engagement with PSB well-being plans*

[89] SWFGA 15 Iechyd Cyhoeddus Cymru
[90] SWFGA 31 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

> *and annual reports, and note that the work of PSBs is often not referenced in other strategic documents."*[91]

**140.** Roedd ofnau hefyd fod y Ddeddf yn rhy ragnodol mewn perthynas â'r gofynion ar BGCau i lunio asesiad a chynllun llesiant bob pum mlynedd. Tynnodd CLlLC sylw at y ffaith ei bod wedi derbyn awgrymiadau sylweddol gan gynghorau o blaid adolygu'r gofynion.[92]

**141.** Awgrymodd Cyngor Sir Ddinbych nad oeddent yn gweld newid sylweddol dros y pum mlynedd sy'n awgrymu bod yr asesiadau yn debygol o fod yn ailadroddus – a'u bod hefyd yn llawer iawn o waith. Adleisiwyd hyn gan Gyngor Sir Conwy, a dywedodd Cyngor Bro Morgannwg:

> *"… the legislation's five year cycle means in reality that nearly half of that period is spent on the preparation of an assessment and well-being plan which distracts from tackling ongoing and long-term issues."*[93]

## Amserlenni o fewn y Ddeddf

**142.** Awgrymodd sawl sefydliad fod yr amserlenni amrywiol y mae cyrff cyhoeddus yn gosod eu hamcanion a'u cynlluniau llesiant arnynt yn broblem, gyda'r mater yn fwyfwy amlwg wrth i gyrff cyhoeddus newydd ddod o dan gylch gwaith y Ddeddf.[94]

**143.** Cyfeiriodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), er enghraifft, at anghydnawsedd rhwng yr amserlenni yn y Ddeddf a deddfwriaeth arall:

> *"…the Environment (Wales) Act's Area Statements and the WFG Act's Well-being Plans were intended to complement each other. In practice, implementation has suffered from misaligned processes and reporting cycles, leading to inconsistent and sometimes duplicated efforts."*[95]

[91] SWFGA 18 CLlLC
[92] SWFGA 18 CLlLC
[93] SWFGA 22 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; SWFGA 20 Cyngor Bro Morgannwg
[94] SWFGA 11 Y Sefydliad Materion Cymreig; SWFGA 31 Comisiynydd Pobl Hŷn; SWFGA 27 Cyfoeth Naturiol Cymru
[95] SWFGA 27 Cyfoeth Naturiol Cymru

**144.** Awgrymodd y Sefydliad Materion Cymreig hefyd fod amserlenni anghydnaws yn achosi heriau sylweddol i swyddfa'r Comisiynydd a'r cyhoedd o ran cadw golwg ar amcanion llesiant newydd. Tynnodd sylw at y ffaith bod y cyfnodau y mae amcanion llesiant cyrff cyhoeddus yn eu cwmpasu yn amrywio'n fawr, gyda rhai yn cwmpasu degawd a mwy ac eraill yn cwmpasu pum mlynedd neu lai (mewn rhai achosion oherwydd cylchoedd gwleidyddol). Tynnodd sylw hefyd at y ffaith nad oes unrhyw rwymedigaeth ar gyrff cyhoeddus i gynnwys y Comisiynydd wrth ddrafftio amcanion llesiant.[96]

**145.** Adleisiwyd y pwyntiau hyn gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a dynnodd sylw at ddiffyg fframwaith cyffredin ar gyfer gosod amcanion llesiant, camau a'u mesur. Mae hyn yn golygu bod y dull tameidiog presennol yn ei gwneud yn amhosibl asesu'r cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at amcanion llesiant. Awgrymodd y dylid diwygio'r Ddeddf i sicrhau bod fframwaith cyffredin gorfodol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pob sector, gan ddadlau y byddai hyn yn ei gwneud yn llawer haws i Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiynydd ac aelodau'r cyhoedd ddeall cynnydd wrth weithredu'r Ddeddf.[97]

**146.** Tynnodd Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sylw at bryderon ynghylch effaith diwygio'r Senedd a'r newid o dymhorau 5 mlynedd i dymhorau 4 blynedd. Er enghraifft, mae amserlenni ar gyfer adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol (sy'n ofynnol o dan adran 23) ac archwiliadau gan Archwilio Cymru (sy'n ofynnol o dan adran 15) wedi'u clymu'n benodol ag etholiadau'r Senedd. Bydd hyn yn golygu y bydd angen i'r ddau sefydliad gwblhau'r gweithgareddau hyn mewn cyfnod byrrach ac yn amlach dros amser.[98] Bydd hefyd yn effeithio ar broblemau cydamseru a gwrthdaro, er enghraifft, ag etholiadau llywodraeth leol a dyfodiad Comisiynydd newydd.[99]

## Barn Llywodraeth Cymru

**147.** Cydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet fod angen bwrw golwg ar effaith diwygio'r Senedd ar amserlenni ond awgrymodd y gallai hyn fod yn anodd oherwydd byddai angen newidiadau deddfwriaethol.[100] Awgrymodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd y gallai'r newidiadau roi mwy o rym i swyddfa comisiynydd cenedlaethau'r dyfodol a sbarduno pŵer y ddeddfwriaeth hefyd, oherwydd bydd yn rhan fawr o'r

[96] SWFGA 11 Y Sefydliad Materion Cymreig
[97] SWFGA 10 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
[98] Archwilio Cymru, Dim Amser i'w Golli, 29 Ebrill 2025; SWFGA 10 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
[99] SWFGA 10 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
[100] Cofnod y Trafodion, para. 77, 1 Rhagfyr 2025

amserlen ddemocrataidd, fel y bu erioed, a bydd brys yn ei gylch. Dywedodd hefyd y gall gael effaith ar adnoddau, serch hynny.

## Monitro a'r dangosyddion cenedlaethol

**148.** Un o'r pedwar argymhelliad a wnaed gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei adroddiad statudol oedd y "dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chyrff cyhoeddus i fwrw golwg o'r newydd ar asesu perfformiad ac effaith dan y Ddeddf".[101]

**149.** Dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru fod dangosyddion a cherrig milltir cenedlaethol y Ddeddf yn sail i adrodd, ond nad yw'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried y rhain wrth fonitro eu cynnydd a'u heffaith eu hunain.

**150.** Dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wrthym fod y diffyg aliniad rhwng nodau cenedlaethol, dangosyddion ac amcanion llesiant yn fater allweddol gan nad yw rhai cyrff cyhoeddus yn cysylltu eu hamcanion llesiant â'r nodau cenedlaethol a'r dangosyddion perfformiad/cerrig milltir. Awgrymodd hefyd nad yw'r dangosyddion cenedlaethol yn weladwy iawn a bod angen i Lywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus, y cyfryngau a'r Senedd roi mwy o sylw i Adroddiad blynyddol Llesiant Cymru.[102]

**151.** Cwestiynodd nifer o randdeiliaid effeithiolrwydd y dangosyddion cenedlaethol. Cwestiynodd rhai eu heffeithiolrwydd neu i ba raddau yr oeddent yn ysgogi newid.[103] Pwysleisiodd eraill yr angen am adolygiad neu iddynt gynnwys dangosyddion eraill sy'n benodol i'r sector.[104]

**152.** Yn ôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, er bod effeithiolrwydd y dangosyddion cenedlaethol yn fater a godir yn aml gydag ef, ac y gellid gwella rhai ohonynt, na fyddai'n dadlau dros adolygiad yn fuan:

> *"let's do that periodically, not on a rolling basis because, otherwise, we'll just keep moving the goalposts and we won't be able to assess progress and impact."*

[101] Archwilio Cymru, Dim Amser i'w Golli, 29 Ebrill 2025
[102] SWFGA 10 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
[103] Megis CLlLC a BCT
[104] Megis SWFGA 47 Cyswllt Amgylchedd Cymru SWFGA 35 Maint Cymru; SWFGA 06 Platfform

## Rôl y Comisiynydd a'r Archwilydd Cyffredinol

**153.** Awgrymodd Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y gall fod dryswch a gorgyffwrdd rhwng eu rolau. Roedd Dr. Caer Smyth yn rhannu'r pryderon hyn.[105]

**154.** Er enghraifft, dywedodd un o swyddogion yr Archwilydd Cyffredinol nad yw'r gwahaniaeth rhwng rôl y Comisiynydd o ran monitro ac asesu cynnydd tuag at amcanion llesiant a gwaith ei swyddfa ar archwiliadau bob amser yn glir.

**155.** Awgrymwyd bod y swyddfeydd wedi datrys y problemau hyn drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Fodd bynnag, roedd hyn oherwydd yr unigolion dan sylw yn hytrach na'r Ddeddf ei hun. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol:

> *"… if you were starting with a blank sheet of paper, you wouldn't necessarily, I think, design the duties as they are."*

**156.** Dadleuodd yr Archwilydd Cyffredinol a'i swyddogion dros ehangu a symleiddio eu dyletswyddau o dan y Ddeddf:

> *"At the moment, we're restricted to looking at the extent to which public bodies are adhering to the sustainable development principle when setting well-being objectives and taking steps to meet them. That means that we're really only looking at how they are setting objectives. We think it would be helpful if we could go a bit wider than that to look more broadly at how public bodies are meeting the legislation."*[106]

**157.** Dadleuodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol dros nifer o welliannau penodol i'w rôl, gan gynnwys gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus a BGCau i anfon copi o'u hamcanion, eu cynlluniau a'u hadroddiadau blynyddol at y Comisiynydd. Dywedodd y byddai hyn yn gwneud monitro cynnydd yn llawer haws ac yn gwella tryloywder.

[105] Cofnod y Trafodion, para. 73 a 74, 108 a 109, 23 Mehefin 2025
[106] Cofnod y Trafodion, para. 168, 30 Mehefin 2025

## Barn Llywodraeth Cymru

**158.** Yn ei hymateb i argymhellion Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch gofynion adrodd, derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol mewn egwyddor gan ddatgan bod angen adolygu ac o bosibl diwygio'r broses asesu bresennol ar gyfer effaith o dan y Ddeddf yn achos cyrff cyhoeddus a BGCau.[107] Yn ôl Llywodraeth Cymru, byddai camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhelliad hwn yn cynnwys adolygiad o'r dangosyddion cenedlaethol a newidiadau i ganllawiau.

**159.** Awgrymodd tystiolaeth ysgrifenedig yr Ysgrifennydd Cabinet gynnydd cymysg yn gyffredinol tuag at y nodau llesiant yn seiliedig ar adroddiadau blynyddol Llesiant Cymru. Cydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet fod angen codi proffil adroddiadau Llesiant Cymru a dangos effaith ein dangosyddion cenedlaethol.[108]

### Ein barn ni

#### Ar ofynion cynllunio ac adrodd

**160.** Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu dyletswyddau cynllunio ac adrodd yn ddigonol o dan y Ddeddf, ond bod heriau penodol ynghylch amserlenni y mae angen mynd i'r afael â nhw.

**161.** Rydym yn nodi'n benodol y pryder bod diffyg cysondeb yn y ffordd y mae cyrff cyhoeddus a BGCau yn gosod amcanion ac yn paratoi cynlluniau llesiant, ynghyd â'r diffyg gwybodaeth am amserlenni, yn ei gwneud yn anodd monitro cynnydd. Nid yw'r amserlenni o reidrwydd yn cyd-fynd â chylchoedd cynllunio neu adrodd corfforaethol eraill nac â gofynion a geir mewn deddfwriaeth arall (megis Datganiadau Ardal o dan Ddeddf yr Amgylchedd).

**162.** Mae'n debygol y bydd y problemau hyn yn gwaethygu yn sgil byrhau tymhorau'r Senedd o 5 mlynedd i 4 blynedd. Bydd amlder a maint y gwaith yn cynyddu i'r Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd, gan roi pwysau ar eu gallu i ymgymryd â gwaith arall. Mae angen gwaith pellach ar oblygiadau'r newid i dymhorau 4 blynedd ac rydym o'r farn y dylai hyn gynnwys edrych ar a fyddai gwahanol ofynion cynllunio ac adrodd ar draws gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth yn elwa pe bai Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei chysoni (neu'r ffordd arall).

[107] Ymateb Llywodraeth Cymru, Dim Amser i'w Golli, Ebrill 2025
[108] Tystiolaeth ysgrifenedig, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol

**Argymhelliad 6.** Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gynnal ymarfer trawslywodraethol i nodi pa ofynion cynllunio ac adrodd ar draws gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth a fyddai'n elwa ar gysoni er mwyn:

- Lleihau dyblygu a beichiau gweinyddol;
- Ei gwneud yn haws olrhain canlyniadau a monitro cynnydd;
- Osgoi anghydnawsedd diangen neu wrthdaro digroeso â chylchoedd etholiadol, er enghraifft.

Dylai'r canlyniadau ddarparu sail i Lywodraeth Cymru gyflwyno Bil cul i roi pwerau dros dro neu benodol i Weinidogion ddiwygio terfynau amser statudol ar draws set ddiffiniedig o Ddeddfau gan ddefnyddio is-ddeddfwriaeth. Dylai'r ymarfer trawslywodraethol gael ei gwblhau o fewn blwyddyn gyntaf y Senedd newydd a heb fod yn hwyrach na Mehefin 2027, gyda deddfwriaeth yn cael ei gweithredu cyn etholiad nesaf y Senedd yn 2030.

**Ar fonitro a'r dangosyddion cenedlaethol**

**163.** Roedd cryn dipyn o dystiolaeth yn cwestiynu defnyddioldeb y dangosyddion cenedlaethol a chredwn ei bod yn eithaf clir bod angen gwneud mwy i sicrhau eu bod yn cael eu hystyried gan gyrff cyhoeddus wrth fonitro cynnydd.

**Casgliad 5.** Fodd bynnag, rydym yn cytuno â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol nad nawr yw'r amser i adolygu'r dangosyddion cenedlaethol ac y byddai'n annoeth gwneud hynny ar sail dreigl.

**Ar rolau'r Comisiynydd a'r Archwilydd Cyffredinol**

**164.** Yn ôl geiriad y Ddeddf, nodwn fod dryswch a gorgyffwrdd posibl rhwng rolau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Archwilydd Cyffredinol. Rydym yn canmol y ddau sefydliad am eu rhagwelediad wrth fynd i'r afael â'r materion hyn drwy femorandwm cyd-ddealltwriaeth ac am y ffordd effeithiol y maent wedi mynd ati i gyflawni eu gwaith ers i'r Ddeddf ddod i rym.

**Casgliad 6.** Nodwn sylwadau Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch ehangu a symleiddio dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Ddeddf i edrych yn ehangach ar sut y mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu'r Ddeddf. Rydym yn cefnogi'r safbwynt hwn ac yn gobeithio y gellir bwrw ymlaen ag ef fel rhan o unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth yn y dyfodol.

# 7. Pwerau, gorfodi a threfniadau ariannu

Mae un o brif ddadleuon yr ymchwiliad hwn yn ymwneud ag effeithiolrwydd y pwerau gorfodi yn y Ddeddf. Roedd y farn ynghylch y model gorau ar gyfer sicrhau hyn yn amrywio, gyda rhai o blaid y drefn bresennol ac eraill yn galw am drefniadau llymach, y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol.

## Y ddadl ynghylch gorfodi

**165.** Clywsom feirniadaeth dro ar ôl tro ynghylch 'diffyg dannedd' y Ddeddf a gwendidau'r darpariaethau gorfodi gan gynnwys gan amrywiaeth o sefydliadau a rhanddeiliaid.[109]

**166.** Tynnodd Cyswllt Amgylchedd Cymru, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Climate Cymru sylw at y ffaith nad yw'r Ddeddf wedi cael ei defnyddio'n llwyddiannus i herio penderfyniadau a wnaed gan gyrff cyhoeddus. Dadleuodd Synnwyr Bwyd Cymru fod ymdrechion aflwyddiannus i ddefnyddio'r Ddeddf i herio penderfyniadau cynllunio mewn perthynas â siopau bwyd cyflym yn enghraifft o hyn.[110]

**167.** Ar y llaw arall, roedd eraill gan gynnwys Conffederasiwn GIG Cymru, Fen Turner o Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Cyngor Bro Morgannwg a Dr Sumina Azam o Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ffafrio'r dull presennol, gan nodi y gallai'r dull cydweithredol presennol gael ei danseilio o blaid cyfundrefn 'cydymffurfio' pe bai trefniadau gorfodi yn llymach ac yn arwain at ganlyniadau anfwriadol.[111]

**168.** Esboniodd Dr Caer Smyth, er gwaethaf diffyg mecanweithiau gorfodi, fod rhai darpariaethau yn y Ddeddf yn ymddangos yn agored i adolygiad barnwrol. Er

[109] Yn cynnwys: Calvin Jones, Ben Hitchings, Rewilding Britain, CLlLC, Race Equality First, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC); Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Ddinbych ac eraill, gweler: Cofnod y Trafodion, para. 26 – 31, 23 Mehefin 2025; SWFGA 01 Ben Hitchings; SWFGA 37 Rewilding Britain; SWFGA 18 CLlLC; SWFGA 26 Race Equality First; SWFGA 45 CGGC; SWFGA 56 Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau; SWFGA 14 Cyngor Sir Dinbych
[110] SWFGA 52 Synnwyr Bwyd Cymru
[111] SWFGA 33 Conffederasiwn GIG Cymru, SWFGA 27 Cyfoeth Naturiol Cymru; SWFGA 20 Cyngor Bro Morgannwg, Cofnod y Trafodion, para 235 a 239, 7 Gorffennaf 2025

enghraifft, awgrymodd Dr Smyth y gallai'r ddyletswydd adran 5(3) i ystyried y pum ffordd o weithio, ac adran 14(2) sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, fod yn agored i adolygiad barnwrol. Esboniodd Dr Smyth, fodd bynnag:

> *"The thing to note about this is that these are procedural duties, rather than substantive duties, so sometimes these duties have a limited scope for a judicial review. However, that's true of many quite similar provisions in environmental law and things in the environmental impact assessment regime that have long being accepted as being amenable to judicial review. So, there are these very clear legal duties that are there in the Act."*[112]

**169.** Dadleuodd rhai na ddylid ystyried y Ddeddf ar ei phen ei hun, gydag eraill yn awgrymu bod yr heriau o ran ei gweithredu yn deillio o heriau gweithredol yn hytrach na'r angen am orfodaeth gyfreithiol gryfach.[113]

## Pwerau'r Comisiynydd mewn perthynas â gorfodi

**170.** Mae Adran 18 o'r Ddeddf yn nodi mai rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yw "hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy" ac "annog cyrff cyhoeddus" i roi rhagor o ystyriaeth i effaith hirdymor.

**171.** Dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wrthym fod y Ddeddf yn:

> *"…represents a different kind of legislation—one that drives positive behaviours, innovation and shared responsibility rather than compliance through sanctions… This is a key feature that needs to be protected whatever enforcement mechanism is chosen this time round."*[114]

**172.** Roedd y School of International Futures o blaid dull y Ddeddf:

> *"… another success [of the Act] seems to be the balance between constructive support versus scrutiny from the Commissioner's office*

112 Cofnod y Trafodion, 23 Mehefin 2025
113 SWFGA 08 Prifysgol Wrecsam
114 SWFGA 10 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

> *and Audit Wales - an area where most other international innovations have failed to get the balance right."*[115]

**173.** Fodd bynnag, dywedodd WEL, er bod cyngor ac arweiniad yn bwysig ym mlynyddoedd cyntaf y Ddeddf, tra bod cyrff cyhoeddus yn ymgyfarwyddo â'u dyletswyddau newydd, fod yn rhaid i hyn newid nawr i sicrhau cynnydd.

**174.** Nododd ein panel o gynrychiolwyr awdurdodau lleol yr effaith gadarnhaol a gafodd cefnogaeth gan swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar eu gwaith ac ar eu BGCau lleol. Fodd bynnag, dywedodd y Cynghorydd Mary Ann Brocklesby o Gyngor Sir Fynwy fod gan y comisiynydd fwy o rôl i herio'r llywodraeth a'i dwyn i gyfrif.[116]

**175.** Roedd atebolrwydd hefyd yn thema bwysig i gyfranwyr at ein gwaith ymgysylltu. Nododd yr adroddiad cryno fod nodau llesiant yn cael eu tanseilio lle'r oedd ymgynghoriadau'n anhygyrch, yn cael eu hyrwyddo'n wael neu'n docenistaidd, a lle'r oedd cyfranogwyr anabl, gofalwyr a'r rhai heb lawer o amser neu adnoddau yn teimlo eu bod wedi'u heithrio. Nododd hefyd fod y cwestiwn ynghylch a ellir cyflawni ymrwymiadau yn gredadwy yn cael ei herio gan bryderon ynghylch tryloywder ac atebolrwydd.

**176.** Dadleuodd CLlLC:

> *"… the Act contains no obvious tools to test whether policy decisions made in Wales (across all levels of government) are actually advancing the well-being goals or not, and does not spell out any consequences for this not to happen."*[117]

**177.** Gwnaed nifer o awgrymiadau mewn perthynas â chryfhau pwerau'r Comisiynydd, gan gynnwys:

- galluogi'r Comisiynydd i gyfeirio diffyg cydymffurfiaeth at broses annibynnol dan arweiniad ombwdsmon;
- rhoi'r pŵer i'r Comisiynydd ddyroddi cyfarwyddebau pan fo cyrff cyhoeddus yn methu â chydymffurfio â'r Ddeddf;[118]

---

[115] SSWFG 19 School of International Futures
[116] Cofnod y Trafodion, para 81 i 86, 7 Gorffennaf 2025
[117] SWFGA 18 CLlLC
[118] SWFGA 05 Yr Athro Luci Attala, Prifysgol Cymru Abertawe; SWFGA 10 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

- grymuso'r Comisiynydd i gychwyn heriau cyfreithiol pan fo penderfyniad corff cyhoeddus yn groes i egwyddorion a nodau'r Ddeddf ac nad oes unrhyw gamau rhesymol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael ag ef.[119]

## Pwerau adran 20

**178.** Yr arf cryfaf sydd gan y Comisiynydd yw'r pwerau a nodir yn Adran 20 i gynnal adolygiadau o gyrff cyhoeddus. Dim ond dwywaith y mae'r rhain wedi'u defnyddio hyd yma, ac ar y ddau achlysur gan y Comisiynydd blaenorol, Sophie Howe.

**179.** Er gwaethaf ei statws, dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wrthym:

> *"Effectively, it's an ability to undertake an investigation, and public bodies are required to take part in that investigation, provide me with evidence, and then, when I make recommendations, they're obliged to respond to those recommendations. They're not required to deliver on those recommendations. So, it's not a strong power, but it is the strongest power that I have within my armoury."*[120]

**180.** Nododd y Sefydliad Materion Cymreig mai yn anaml y mae pŵer adran 20 yn cael ei ddefnyddio, ei fod yn ddwys o ran adnoddau a, lle mae wedi'i ddefnyddio, nad yw'n glir a yw wedi arwain at unrhyw newid.[121]

**181.** Tynnodd y Comisiynydd sylw at y ffaith bod y rôl wedi'i chynllunio i hyrwyddo yn hytrach na rheoleiddio ac mai dyma'r math gwannaf o rôl Comisiynydd. Amlinellodd y Dirprwy Gomisiynydd Marie Brousseau-Navarro y gwahanol fathau o Gomisiynydd yng Nghymru. Gellir gweld crynodeb o'r tri math yn Ffigur 3 isod.

[119] SWFGA 41 Climate Cymru; SWFGA 26 Race Equality First
[120] Cofnod y Trafodion, para. 106, 10 Tachwedd 2025
[121] SWFGA 11 Y Sefydliad Materion Cymreig

***Ffigur 3: Y tri math wahanol o'r Comisiynydd a'u dulliau***

### HYRWYDDWR

Rôl y Comisiynydd yw hyrwyddo, annog a chynghori.

Yn debycach i hyfforddwr yn cefnogi sefydliadau i weithredu deddfwriaeth.

**Enghraifft:**
Future Generations Commissioner

### EIRIOLWR

Comisiynydd sy'n cefnogi grŵp penodol o'r boblogaeth gyda'u hawliau ac yn galluogi iddynt gael eu hamddiffyn a'u cynnal. Fel arfer, mae datganiad o hawliau yn sail i'w bwerau.


**Enghraifft:**
Comisiynydd Plant neu Gomisiynydd Pobl Hŷn

### RHEOLEIDDIWR

Dyma'r cryfaf o'r tri model.

Mae'r Comisiynydd hwn yn gallu gosod safonau cyfreithiol a gwirio eu bod yn cael eu gorfodi.

**Enghraifft:**
Comisiynydd y Gymraeg neu'r Comisiynydd Gwybodaeth



**Cryfderau pwerau pob comisiynydd o'r lleiaf i'r mwyaf**

**182.** Tynnodd Dr Suzanna Nesom a Dr Eleanor McKillop sylw at y risgiau o greu Comisiynwyr rhy bwerus, gan gyfeirio at esiampl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Israel, sydd â phwerau sylweddol, gan gynnwys y gallu i ohirio deddfwriaeth, ond bod hyn wedi arwain yn y pen draw at ddiddymu'r swydd ar ôl un tymor.[122]

**183.** Roedd nifer o dystion sy'n cyflawni neu a oedd wedi cyflawni rolau allweddol yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth, Jane Davidson, Sophie Howe, ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Adrian Crompton, yn cefnogi'r model presennol o ysgogi newid diwylliant yn hytrach na gorfodi cryfach.[123]

**184.** Roedd Jane Davidson yn glir ei bod hi'n gweld y Ddeddf fel un sy'n darparu fframwaith cyfansoddiadol a'i bod yn gwrthwynebu'r awgrym y dylai gynnwys cosbau unigol. Cytunodd fod lle i wneud mwy o ddefnydd o bwerau Adran 20 y Ddeddf.[124]

**185.** Roedd Sophie Howe yn cytuno, gan amlinellu'r ffordd yr oedd y bygythiad o ddefnyddio pwerau adran 20 wedi arwain at gamau gweithredu ar adegau. Fodd bynnag, pwysleisiodd y cyn-Gomisiynydd hefyd fod yr adolygiadau hyn yn ddrud a bod Comisiynwyr yn dibynnu ar Weinidogion i ddarparu'r cyllid ar eu cyfer.

**186.** Galwodd Sophie Howe am nifer fach o newidiadau i'r ddeddfwriaeth a oedd yn cynnwys darpariaethau newydd i alluogi Comisiynwyr i fynd ar drywydd adolygiadau a20 gyda chyrff cyhoeddus yn ffurfiol. O ran cydymffurfio, galwodd am gynnwys pŵer ychwanegol i alluogi Comisiynwyr i wneud cais i'r llysoedd mewn achosion lle'r oedd corff cyhoeddus yn methu â chydymffurfio â gofynion adolygiad a20.[125]

## Barn Llywodraeth Cymru

**187.** Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Cabinet at y ffaith nad yw'r Ddeddf yn darparu hawliau y gall pobl eu gorfodi'n gyfreithiol yn erbyn cyrff cyhoeddus, a disgrifiodd hyn fel dewis polisi bwriadol. Dywedodd mai pwrpas y Ddeddf yw'r ffordd y gallwch hyrwyddo gwneud penderfyniadau gwell a mwy cyfannol.

**188.** Gwnaethom ofyn a yw'r Llywodraeth wedi ystyried cryfhau rhai agweddau ar y Ddeddf, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gymryd camau

[122] Cofnod y Trafodion, para. 32- 44, 23 Mehefin 2025;
[123] Cofnod y Trafodion, para. 262, 30 Mehefin 2025
[124] Cofnod y Trafodion, para. 91, 30 Mehefin 2025
[125] Cofnod y Trafodion, para. 114, 30 Mehefin 2025

gweithredu o ganlyniad i argymhellion a wnaed o dan adolygiad a20. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"…the section 20 powers that the Commissioner has got…can actually lead to change in terms of delivering on the Act and actually influencing other legislation, but I don't think we see the need for any further change in respect of enforcement."*[126]

**189.** Pan ofynnwyd ymhellach a oedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried rhai o'r awgrymiadau a wnaed ar y mater hwn yn ystod ein hymchwiliad, cadarnhaodd swyddog yr Ysgrifennydd Cabinet nad oedd wedi gwneud hynny.

**190.** Fodd bynnag, ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet, os bydd yn mynd ati i wneud gwaith craffu a gwerthuso ôl-ddeddfwriaethol llawn o ganlyniad i'r ymchwiliad hwn, y ddau adroddiad sydd ganddi i'w gwneud, a'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol, yna y bydd y rhain yn faterion y byddai'n ddefnyddiol eu cynnwys. O ran sicrhau bod mecanweithiau atebolrwydd y Ddeddf yn gadarn, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei bod o'r farn bod pethau wedi dod i'r amlwg, hyd yn oed yn sgil gwaith craffu ar brynhawn yr adolygiad, a oedd yn dangos y ffordd ymlaen.

**191.** Dywedodd hefyd, er nad oedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried diwygio pwerau a20, y gallai fod addasiadau o ran y broses ac, er enghraifft, ar gyfer adnoddau a chyllid.[127]

**192.** Yn yr un modd, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad oedd y Llywodraeth wedi ystyried a ellid cymhwyso modelau a ddefnyddiwyd ar gyfer Comisiynwyr eraill ac nad oedd yn ymwybodol o'r dystiolaeth yr oeddem wedi'i chael ar y mater hwn.

## Ein barn ni

### Ar y ddadl ynghylch gorfodi

**193.** Gan adlewyrchu rhai o'r dadleuon a ymarferwyd pan gafodd y Bil ei ddatblygu yn wreiddiol, un o'r meysydd a ysgogodd y drafodaeth fwyaf bywiog oedd y ddadl ynghylch gorfodi. Un o ddadleuon yr amheuwyr yw 'diffyg dannedd' y Ddeddf gan nad yw'n darparu sail y gellir ei gorfodi'n gyfreithiol i herio penderfyniadau gan Weinidogion neu gyrff cyhoeddus. Yn ôl cefnogwyr y Ddeddf,

[126] Cofnod y Trafodion, para 101, 1 Rhagfyr 2025
[127] Cofnod y Trafodion, para 101, 1 Rhagfyr 2025

nid dyma oedd ei nod erioed. Bwriadwyd y Ddeddf i fod yn fath gwahanol o ddeddfwriaeth, un sy'n annog penderfyniadau gwell a chydweithio ynghylch cydymffurfiaeth a sancsiynau.

**194.** Rydym yn derbyn bod manteision ac anfanteision i'r ddwy ddadl ac yn nodi bod y safbwyntiau wedi'u rhannu'n weddol gyfartal ar y cwestiwn hwn. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y gall diffyg atebolrwydd fod yn niweidiol iawn i ymddiriedaeth y cyhoedd ac arwain at rwystredigaeth. Mae'r ymdeimlad hwn o rwystredigaeth yn amlwg yn ein crynodeb o ganfyddiadau ymgysylltu lle mynegodd dinasyddion y farn nad yw'r Ddeddf, ar lu o faterion sy'n bwysig iddynt o bwysau tai i lygredd afonydd, o ddirywiad canol trefi i fynediad at y celfyddydau a diwylliant (a llawer mwy), yn llwyddo i newid pethau o ran profiad bywyd. pobl

**195.** Yn amlwg, mae angen rhoi mwy o sylw i fater atebolrwydd a gorfodi. Ar ôl ystyried y gwahanol fodelau sydd ar gael, rydym wedi dod i'r casgliad ein bod o blaid dull esblygiadol. Pe bai'r pwerau gorfodi yn cael eu cryfhau ormod, credwn y byddai hynny'n newid y berthynas rhwng y Comisiynydd a chyrff cyhoeddus yn sylfaenol, o bosibl mewn ffordd niweidiol. Yn hytrach, rydym yn cymeradwyo cryfhau mesurau atebolrwydd yn y Ddeddf fel y gall y Comisiynydd gychwyn heriau cyfreithiol.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth nesaf Cymru gryfhau mesurau atebolrwydd yn y Ddeddf ac ystyried ei diwygio fel y gall y Comisiynydd gychwyn heriau cyfreithiol os bernir bod penderfyniad corff cyhoeddus yn groes i egwyddorion a nodau'r Ddeddf.

### Ar bwerau Adran 20

**196.** Mae adolygiadau Adran 20 yn un o arfau pwysig Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac maen nhw wedi cael eu defnyddio'n effeithiol yn y gorffennol. Fodd bynnag, nodwn fod rhwystrau ymarferol i ddefnyddio adolygiadau a20, gyda phob un ohonynt yn ymwneud â chyllid. Y cyntaf yw bod swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn wynebu costau ychwanegol wrth gynnal adolygiadau a20. Yn y gorffennol, roedd modd i swyddfa'r Comisiynydd ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i ddarparu cyllid ar gyfer y blynyddoedd pan oedd adolygiadau yn yr arfaeth. Dywedodd y Comisiynydd wrthym, o ganlyniad i newidiadau i reolau cyfrifyddu, nad yw bellach yn gallu dal cronfeydd wrth gefn. Yn wahanol i'r Archwilydd Cyffredinol, mae'r Comisiynydd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru – mae rheolaeth weinidogol dros gyllidebau yn wendid posibl i annibyniaeth y swyddfa a pha mor blwmp a phlaen y gall y Comisiynwyr fod wrth gynnig cyngor.

**Casgliad 7.** Mae'n annerbyniol bod gallu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gynnal adolygiadau a20 yn cael ei beryglu gan faterion technegol sy'n ymwneud â sut y mae swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei hariannu. Mae'n hanfodol bod y rhain yn cael sylw fel bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn gallu gweithredu'n annibynnol a heb y perygl o ymyrraeth gan lywodraeth y dydd. Mae angen datrys y mater o ariannu adolygiadau a20 ar unwaith. Rydym yn disgwyl ymateb gan yr Ysgrifennydd Cabinet ar y mater hwn cyn diddymu'r Senedd ym mis Ebrill 2026.

**Argymhelliad 8.** Yn y tymor byr, rhaid i Lywodraeth bresennol Cymru ddod o hyd i ateb i'r mater cyfrifyddu sy'n atal y Comisiynydd rhag cario cronfeydd wrth gefn drosodd er mwyn ariannu adolygiadau a20. Yn y tymor hwy, dylai Llywodraeth nesaf Cymru ystyried diwygio'r Ddeddf i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am benodi ac ariannu'r Comisiynydd yn uniongyrchol i'r Senedd. O ystyried yr amserlen ar gyfer penodi Comisiynydd nesaf Cenedlaethau'r Dyfodol ac i alluogi'r trefniadau hyn i fod yn berthnasol i ddeiliad y swydd, dylid gosod nod o gwblhau'r newidiadau statudol angenrheidiol erbyn diwedd 2028/dechrau 2029.

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **23 Mehefin 2025** | **Yr Athro Calvin Jones,**<br>Economegydd<br>**Dr Caer Smyth,**<br>Prifysgol Caerdydd<br>**Dr Suzanna Nesom,**<br>Prifysgol Efrog<br>**Dr Eleanor Mackillop, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru,**<br>Prifysgol Caerdydd |
| **30 Mehefin 2025** | **Sophie Howe,**<br>Cyn-Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol<br>**Jane Davidson, Cadeirydd,**<br>Cymru Sero Net 2035<br>**Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru,**<br>Archwilio Cymru<br>**Catryn Holzinger, Rheolwr Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol,**<br>Archwilio Cymru<br>**Martin Peters, Pennaeth y Gyfraith a Moeseg,**<br>Archwilio Cymru |
| **7 Gorffennaf 2025** | **Y Cynghorydd Mary-Ann Brocklesby, Arweinydd**<br>Cyngor Sir Fynwy<br>**Wayne Tucker, Uwch Swyddog Polisi a Phartneriaeth,**<br>Cyngor Casnewydd<br>**Robyn Lovelock, Rheolwr Mewnwelediad, Strategaeth a Chyflawni,**<br>Cyngor Sir Ddinbych<br>**Fen Turner, Arweinydd Tîm Dulliau Integredig ar gyfer Adnoddau Naturiol a Newid Hinsawdd**<br>Cyfoeth Naturiol Cymru |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| | **Philip Daniels, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd,**<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg<br>**Sumina Azam, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol,**<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>**Geoff Ogden, Prif Swyddog Cynllunio a Datblygu Trafnidiaeth,**<br>Trafnidiaeth Cymru<br>**Nathalie Rees, Pennaeth Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd,**<br>Trafnidiaeth Cymru<br>**Philip Blaker, Prif Weithredwr.**<br>Cymwysterau Cymru<br>**Dr Lindsay Cordery-Bruce, Prif Weithredwr**<br>CGGC<br>**Rachel Wolfendale, Rheolwr Rhaglen,**<br>Y Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu<br>**Hazel Lloyd Lubran, Prif Swyddog,**<br>Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVCO) a Chadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru |
| **10 Tachwedd 2025** | **Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru,**<br>Swyddfa Comisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru<br>**Marie Brousseau Navarro, Dirprwy Gomisiynydd a Chyfarwyddwr Iechyd,**<br>Swyddfa Comisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru<br>**Heledd Morgan, Cyfarwyddwr Gweithredu ac Effaith,**<br>Swyddfa Comisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru |
| **1 Rhagfyr 2025** | **Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Rae Cornish, Dirprwy Gyfarwyddwr, Dyfodol Cynaliadwy,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Juliette Selby, Uwch-reolwr Polisi Datblygu Cynaliadwy,**<br>Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 2: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Darparodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **SWFGA 01** | Ben Hitchings |
| **SWFGA 02** | Asthma & Lung UK |
| **SWFGA 03** | Foundations for Tomorrow |
| **SWFGA 04** | National Youth Advocacy Service Cymru |
| **SWFGA 05** | Yr Athro Luci Attala, Prifysgol Cymru Abertawe |
| **SWFGA 06** | Platfform |
| **SWFGA 07** | Cyngor Dinas Casnewydd |
| **SWFGA 08** | Prifysgol Wrecsam |
| **SWFGA 09** | Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru (RCGP) |
| **SWFGA 10** | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru |
| **SWFGA 11** | Y Sefydliad Materion Cymreig (IWA) |
| **SWFGA 12** | Gwasanaeth Natur Cymru |
| **SWFGA 13** | Cymdeithas Chwaraeon Cymru |
| **SWFGA 14** | Cyngor Sir Ddinbych |
| **SWFGA 15** | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **SWFGA 16** | Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru |
| **SWFGA 17** | CWMPAS |
| **SWFGA 18** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) |
| **SWFGA 19** | School of International Futures |
| **SWFGA 20** | Cyngor Bro Morgannwg |
| **SWFGA 21** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **SWFGA 22** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **SWFGA 23** | Trafnidiaeth Cymru |
| **SWFGA 24** | Chwarae Cymru |
| **SWFGA 25** | Tai Pawb |
| **SWFGA 26** | Race Equality First |
| **SWFGA 27** | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **SWFGA 28** | Peter Davies |
| **SWFGA 29** | Cyngor Cymuned Llandochau |
| **SWFGA 30** | Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru |
| **SWFGA 31** | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| **SWFGA 32** | Crisis UK |
| **SWFGA 33** | Conffederasiwn GIG Cymru |
| **SWFGA 34** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| **SWFGA 35** | Maint Cymru |
| **SWFGA 36** | Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| **SWFGA 37** | Rewilding Britain |
| **SWFGA 38** | Gofal a Thrwsio Cymru |
| **SWFGA 39** | TUC Cymru |
| **SWFGA 40** | Comisiynydd y Gymraeg |
| **SWFGA 41** | Climate Cymru |
| **SWFGA 42** | OXFAM Cymru |
| **SWFGA 43** | Annie Tubadji, Prifysgol Abertawe |
| **SWFGA 44** | Cyngor Abertawe |
| **SWFGA 45** | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) |
| **SWFGA 46** | Mudiad Meithrin |
| **SWFGA 47** | Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| **SWFGA 48** | Plant yng Nghymru |
| **SWFGA 49** | Cynghrair Polisi Bwyd Cymru |
| **SWFGA 50** | Chwaraeon Cymru |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **SWFGA 51** | Un Llais Cymru |
| **SWFGA 52** | Synnwyr Bwyd Cymru |
| **SWFGA 53** | Dr Anwen Elias, Prifysgol Aberystwyth |
| **SWFGA 54** | Comisiynydd Plant Cymru |
| **SWFGA 55** | Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru |
| **SWFGA 56** | Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau |
| **SWFGA 57** | Cyngor Celfyddydau Cymru a Celfyddydau Rhyngwladol Cymru |
| **SWFGA 58** | Board of Bronllys Well Being Part CLT LTD |
| **SWFGA 59** | Archwilio Cymru |

# Atodiad 3: Crynodeb o argymhellion a gymeradwywyd gan y Pwyllgor gan yr Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd, ac ymateb Llywodraeth Cymru

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| **Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | |
| 1) Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir gwmpas ac amserlen ar gyfer ei gwerthusiad ôl-ddeddfwriaethol ei hun ac unrhyw newidiadau i'r Ddeddf. | Derbyn mewn egwyddor – Oherwydd yr amserlenni presennol, a'r ffaith na all y Llywodraeth hon ymrwymo Llywodraethau'r dyfodol i weithredu, ni fydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu nac yn cytuno ar unrhyw werthusiad ôl-ddeddfwriaethol tan ar ôl yr etholiad ym mis Mai 2026.<br><br>Fodd bynnag, yn dilyn canfyddiadau ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn dechrau pennu'r opsiynau posibl ar gyfer cwmpas a chynllun gwerthusiad yn y dyfodol. |
| 2) Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chyrff cyhoeddus i archwilio a chytuno ar yr hyn y gellir yn rhesymol ei wneud i leihau ansicrwydd ynghylch cyllid i'r eithaf a chynorthwyo eu gwaith cynllunio ar gyfer y tymor canolig a hwy lle y bo'n bosibl. | Derbyn mewn egwyddor – Mae'r cam hwn eisoes yn rhan o Adolygiad Gwariant Cymru ("WSR") ac mae'n cael ei ystyried yn flynyddol fel rhan o broses pennu cyllideb Llywodraeth Cymru.<br><br>Rydym yn cytuno mewn egwyddor y dylai Llywodraeth Cymru weithio i leihau ansicrwydd ynghylch cyllid, ond rhaid i hyn fod yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau penodol yr ydym yn gweithio ynddynt. Mae amseriad digwyddiadau cyllidol y DU, cylch |

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| | etholiadau Llywodraeth y DU a chylch etholiadau'r Senedd i gyd yn cael effaith sylweddol ar ein gallu i gyflawni setliadau aml-flwyddyn. |
| 3) Mae'r Comisiynydd wedi argymell bod Llywodraeth Cymru'n clustnodi cyllid ar gyfer atal, sy'n cynyddu dros amser. Mae hyn yn adlewyrchu galwadau gan nifer o sefydliadau ar lefel y DU. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio ffyrdd eraill, cyflenwol o hybu buddsoddiad mewn atal hefyd. Dylai hyn gynnwys gweithio gyda chyrff cyhoeddus i:<br>▪ gryfhau'r ddealltwriaeth am lefelau mewn buddsoddi mewn atal a'i effaith;<br>▪ adeiladu ar waith i wreiddio atal ym mhroses y gyllideb gan ystyried, er enghraifft, gyfleoedd i ddod â chyllid ynghyd ar draws gwahanol rannau o'r system i gefnogi atal;<br>▪ cymell a diogelu gwariant ataliol ar lefel leol; a<br>▪ dysgu oddi wrth eraill y tu hwnt i Gymru, er enghraifft, gan ystyried gwaith y mae CIPFA yn ei wneud ar ddeall gwariant ataliol. | Gwrthod – Mae egwyddor hirsefydlog bod Llywodraeth Cymru yn ceisio osgoi neilltuo cyllid oherwydd y gall hyn leihau gallu sefydliadau i reoli eu cyllidebau eu hunain yn unol â'u cyfrifoldebau. Er enghraifft, mae partneriaid mewn llywodraeth leol wedi cyflwyno'r achos droeon dros symud cyllid tuag at y grant cynnal refeniw yn benodol fel nad yw cyllid yn cael ei glustnodi, fel y gallant wneud y penderfyniadau gorau ar gyfer eu hardal benodol.<br><br>Yn fwy na hynny, mae ynysu cyllid ar gyfer atal ac ymyrryd yn fuan mewn modd effeithiol a theg heb danseilio'r dull atal ehangach yn her fawr. Mae angen cydbwysedd rhwng darparu gwasanaethau ar unwaith a gallu cynllunio yn yr hirdymor i atal yr angen am y gwasanaethau hynny. |
| 4) Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chyrff cyhoeddus i fwrw golwg o'r newydd ar asesu perfformiad ac effaith dan y Ddeddf. Dylai'r gwaith hwn ystyried: | Derbyn mewn egwyddor – Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen adolygu ac, o bosibl, ddiwygio'r broses asesu bresennol am effaith o dan y Ddeddf i gyrff cyhoeddus a |

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| ▪ sut orau i fesur yr effaith y mae cyrff cyhoeddus yn ei chael a'u cyfraniad at lesiant Cymru; a<br>▪ sut y gall asesu perfformiad ac effaith hybu nodau'r Ddeddf ac atgyfnerthu'r angen i weithio'n ataliol a chydweithio. | Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau). |
| **Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020** | |
| (1) Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol i gryfhau ei heffaith ac i baratoi ar gyfer diweddariadau i Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig yn 2030. Dylai'r adolygiad hwn gynnwys deialog gyhoeddus i ymgysylltu â phobl o bob cwr o Gymru wrth lywio dyfodol polisi llesiant. | Ystyried yn gadarnhaol ar gyfer y dyfodol – Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn cynnal ymchwiliad i'r pwnc hwn ar hyn o bryd. Yn dilyn canfyddiadau'r ymchwiliad hwn, ac ystyriaethau gwerthuso, dylunio a chostio mewnol, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y gofyniad hwn ymhellach. |
| (2) Rhaid i Lywodraeth Cymru asesu a symleiddio strwythurau partneriaeth i leihau cymhlethdod a gwella cydlyniant ledled Cymru. | Derbyn mewn egwyddor – Mae llywodraethiant genedlaethol y BGCau wedi'i hadnewyddu ac rydym yn bwriadu adolygu'r broses o symleiddio cysylltiadau'r BGCau â BPRhau a Chyd-bwyllgorau Corfforedig. Bydd mwy o ymgysylltu ag arweinwyr cyrff cyhoeddus, gan gynnwys trafodaethau ar y Ddeddf. Bydd adolygiadau yn pennu a dderbynnir yr argymhelliad hwn. |
| (44) Dylai Llywodraeth Cymru glustnodi cyllid ar gyfer atal sy'n cynyddu dros amser. | Gwrthod – Mae neilltuo cyllid yn lleihau ymreolaeth cyllidebol sefydliad. Mae ynysu cyllid atal yn deg yn anodd a gallai danseilio ymdrechion atal |

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| | ehangach a chyfrifoldebau y mae'n rhaid i sefydliadau eu rheoli'n effeithiol. |
| (45) Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno'r broses o bennu cyllideb a chynhyrchu setliadau ariannu aml-flwyddyn. | Derbyn mewn egwyddor – Rydym yn cefnogi lleihau ansicrwydd ynghylch cyllid ond mae'n rhaid i ni weithredu o fewn cyfyngiadau. Mae digwyddiadau cyllidol y DU a chylchoedd etholiadau yn effeithio'n sylweddol ar ein gallu i gyflawni setliadau aml-flwyddyn, gan gyfyngu ar hyblygrwydd a chynlluniau hirdymor. |
| (47) Dylai cyrff cyhoeddus ddefnyddio'r diffiniad cytunedig o atal rhwng Llywodraeth Cymru a'm swyddfa i fapio eu gwariant ar atal a buddsoddi mwy mewn atal sylfaenol. | Derbyn mewn egwyddor – Er ein bod yn cefnogi egwyddor atal, efallai na fydd gorfodi un dull mapio yn adlewyrchu amrywiaeth gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn parhau i hyrwyddo dulliau hyblyg, penodol i gyd-destun o atal ar draws sectorau. |